




~ CROESAIR ~

gan Agrestis



Ar draws

5. Bydd pysgodyn yn gwneud hyn (5)
 6. Chwyn pigog (5)
 8. Mae dwy gan golomen (4)
 9. Ocsigen neu hydrogen (3)
 10. Pobl felly sy'n ennill Croes Victoria (4)
 11. Môn a Manaw (7)
 13. Gwnawn hyn pan fyddwn yn hapus (5)
 16. Dweud yn gadarn (5)
 18. Mynd yn gyflym (7)
 21. Neidr (4)
 23. v+iv (3)
 24. Mae hwn yn teithio ar gledrau (4)
 25. Y diwrnod ar ôl heddiw (5)
 26. Amharodwydd i weithio (5)

I Lawr

1. Tywi neu Hafren (4)
 2. Bwrdd uchel mewn siop neu fanc (7)
 3. Cul (5)
 4. Cwmp o ddŵr (4)
 5. Mae sawl un mewn symffoni (5)
 7. Nid trist (5)
 12. Cyrff nefolaidd (3)
 14. Mur (3)
 15. Pentref yn nalgylch Y Lloffwr (7)
 17. Mae un yn Nhalylychau (5)
 19. Drysi (5)
 20. Bwa'r arch (5)
 22. Yn ôl Salm 23, mae hon yn llawn (4)
 24. Cert (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto. Atebion at yr Uwch Olygydd erbyn **20 Tachwedd 2005**.

ENW:

CYFEIRIAD:

FFÔN:

ENILLYDD CROESAIR HYDREF:

Mrs Eurwen Bowen, Erw Fach, Llangadog, Sir Gâr.
ATEBION

Ar Draws: 1. Dodwy; 4. Mair; 7. Teuluoedd; 8. Pert; 9. Ward; 10. Ffyrnigo; 11. Prin; 12. Odyn; 15. Pererin; 17. Asid; 20. Hudo; 21. Dychwelyd; 22. Rhian; 23. Brifo.
 I Lawr: 1. enw; 2. Diloni; 3. Ysol; 4. Meddwyn; 5. Impyn; 6. Cregyn; 11. Poenus; 13. Distewi; 14. Pioden; 16. Eboni; 18. Dwylo; 19. Achub.

~ DYDDIADUR ~

Cyfraniadau i ddyddiadur Rhagfyr i gyrraedd swyddfa Menter Bro Dinefwr neu e-bost Y Lloffwr erbyn 20 Tachwedd

TACHWEDD

- 2 C.F.F.I. Sir Gâr – Siarad Cyhoeddus Saesneg adran Ganol a Hŷn, Ysgol Nantgaredig am 7pm.
 12 Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech yn Neuadd yr Eglwys i ddechrau am 2pm gyda'r eitemau cyfyngedig ac yna am 3pm agored. Cysylltwch â Mrs S. Humphreys Jones, Frongelli, Alltlyblaca ar (01570) 480289 am fanylion pellach.
 17 C.F.F.I. Sir Gâr – Siarad Cyhoeddus Saesneg Adran Iau a Darllen yn Ysgol Nantgaredig am 7.00pm.
 18 Dawns Aeaf a Raffl Fawr gan Gyfeillion Ysgol Pantycelyn yn Neuadd Ysgol Pantycelyn. Mae tocynnau ar gael o'r ysgol, a fydd yn cynnwys pryd tri chws, band byw a disgo. Mae tocynnau raffl ar gael gyda gwobrau ardderchog. Dewch os gwelwch chi'n dda i gefnogi plant yr Ysgol.
 13 Cyngerdd yn Eglwys Llansawel gyda Chôr Meibion Dinefwr, Ffion Heledd a Nia Thomas, Talylychau, i ddechrau am 7.30pm.
 18 Cyngerdd i gefnogi ymgyrch Plant Mewn Angen yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin rhwng 8.00 a 9.30pm gydag Elin Fflur a'r Band, Cerddorfa Gymreig y BBC, Côr Seingar a llawer o dalentau lleol eraill.
 18 Noson Goffi yn yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri am 7.00pm. Trefnir gan Bwyllgor y Neuadd.
 18 Cyfarfod Cystadleuol Capel Cwrtycadno am 6.30pm. Manylion gan Rhiannon Merthyr ar (01558) 650231.
 19 Trip Sopa Nadolig i Cribbs Causeway, Bryste dan drefniant Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Cwrt Henri. Ffoniwch Janet Thomas ar (01558) 668264.
 19 Cyngerdd yng nghwmni Côr Godre'r Aran gydag Eirian Owen yn arwain yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. Dwy ar daith, sef noson gydag Elin Fflur a Tara Bethan yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri i ddechrau am 8.00pm. Manylion pellach gan Fenter Bro Dinefwr ar (01558) 825336.
 26 Miri'r Nadolig yn Neuadd Llangadog rhwng 10.00 a 12.00 y bore. Manylion pellach gan Fenter Bro Dinefwr ar (01558) 825336.
 30 Cyfarfod Blynnyddol C.F.F.I. Sir Gâr yn y Gerddi Botaneg am 7.30pm.

RHAGFYR

- 2-3 Ffair Grefftau Nadolig yn Neuadd y Coroniad Pumsaint o 10am – 4pm. Dewch i gefnogi crefftwyr lleol.
 18 Gwasanaeth Carolau gyda Rhian Lois Evans a Peter Horton yn unawdwyr yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. Am wybodaeth bellach a thocynnau, cysylltwch ag aelodau'r pwyllgor, neu'r Ysgrifennydd ar (01558) 650507.
 18 Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Rhian Mair Lewis (unawdydd), corau Bois y Castell a Seingâr, Deiniol Jones a chôr Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn Nghapel Newydd, Llandeilo. Tocynnau £6 (£3 i blant dan 16 oed). Tocynnau ar gael gan aelodau'r corau neu gan Nia Clwyd ar (01558) 824010. Elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr, 2007.
 20 Dawns Llysgenhades C.F.F.I. Sir Gâr yn 'Time' Abertawe.

IONAWR

- 20 Dawns Dwynwen yng nghwmni Jac-y-do yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri am 7.30pm. Manylion pellach gan Fenter Bro Dinefwr ar (01558) 825336.

Y LLOFFWR



YN Y RHIFYN HWN...

- Ffarmers - y pentref delfrydol
- Swyddfa Bost Llangadog - y gorau yng Nghymru
- Eisteddfod C.F.F.I.
- Newyddion Bro a llawer mwy

yloffwr@papurbro.org

RHIF 269

PAPUR BRO CYLCH DINEFWR

TACHWEDD 2005

75c



LLWYDDIANT BUSNES LLEOL

Mae Swyddfa'r Post Llangadog wedi dod i'r brig wrth ennill y Wobr Gymunedol i Swyddfeydd Post yn rhanbarth Cymru a'r Gororau. Tipyn o gamp gyda chystadleuaeth gref oddi wrth nifer fawr o ganghennau eraill ar hyd a lled y wlad.

Dyma oedd gan Win Morgan y bost feistres (*yn y llun*) i'w ddweud.

"Mehefin eleni dechreuodd y broses, pan oeddem yng nghanol yr holl waith o ail wneud y siop. Ac yng nghanol llanast yr adeiladwyr yr oedd ein cwsmeriaid yn fwy na pharod i lanw'r slipiau yn rhoi eu barn am y gwasanaeth a gynigir yma. Dyma'r drydedd flwyddyn i ni gystadlu, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig i dynnu sylw at gyfraniad swyddfeydd post i'w cymunedau. Mae nifer ohonynt yn cau ar hyn o bryd gan golli'r sgwrs a'r gymdeithas y mae'r cwsmeriaid yn ei fwynhau yma.

Roedd mynd i Lundain i dderbyn y wobr yn Banqueting Hall, Whitehall yn dipyn o brofiad. Roedd y carped coch allan a'r camerâu yn fflachio o bob cyfeiriad, tipyn o seremoni yn wir. Ond pur anaml y cawn gyfle i fynd oddi yma, gyda'r siop ar agor rhwng 5 y bore a 6 yr hwyr. Ond os am gynnig y gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid, rhaid bod yn hyblyg."

Ond camgymeriad fyddai i chwi feddwl mai 'dyna ni' i Siop a Swyddfa'r Post Llangadog. Mae Win a'i gŵr Richard yn ceisio ffyrdd newydd o gynnig gwell gwasanaeth yn barhaus. Y bwriad yw ymestyn oriau'r Swyddfa Bost i wasanaethu pobl sy'n gweithio fedru defnyddio'r cyfleusterau sydd yno. Efallai eich bod wedi sylwi fod yna gaffi rhyngrwyd newydd agor yno, gan brofi ei fod yn boblogaidd gyda chwsmeriaid, ac er mwyn i bawb fedru mwynhau'r dechnoleg newydd gobeithir cynnig hyfforddiant yn y dyfodol agos.

Rwy'n siŵr y cytunwch fod gan bentref Llangadog wasanaeth heb ei ail yn ei swyddfa bost gymunedol. Gwasanaeth sy'n rhoi'r pwyslais ar safon a pharch at gwsmeriaid, a hynny mewn awyrgylch fodern a chyffrous.

~ GOLYGYDDOL ~

Gall yr adeg hon o'r flwyddyn fod yn un anodd gyda'r nosweithiau tywyll a bwrwm y Nadolig ar y trothwy ond heb gyrraedd. Yn tŷ ni mae'n amser go gyffrous gan mai dyma pryd mae'r plant yn dathlu eu pen blwyddi, a chawn weld y dyheu i gael bod yn hŷn! Gan mai dim ond blwydd yw'r un fach leiaf, braf yw cael mwynhau'r pethau syml; y cyffro o weld brigau'r coed yn symud a rhyfeddod cwmp y dail, pethau a gymerir mor ganiataol gennym ni ond sydd wrth gwrs yn gwbl newydd i blentyn bach.

Debyg iawn fod pob un ohonom o dro i'w gilydd yn euog o beidio â gwerthfawrogi'r pethau symlaf a'r hyn sydd gennym ni. Ond o fewn tudalennau'r rhifyn hwn gwelwn gymunedau sydd yn gwneud eu gorau glas i gadw, meithrin a datblygu'r pethau gorau hynny mewn bywyd, ac ambell un wedi derbyn sylw cenedlaethol am wneud. Llongyfarchiadau gwresog iddynt.

Lynwen Davies

~ Y GOLOFN GREFYDDOL ~

Cewri neu Geiliogod Rhedyn?

"Gwelsom yno gewri – meibion Anac; nid oeddem yn ein gweld ein hunain yn ddim mwy na cheiliogod rhedyn....." (Llyfr Numeri 13:33) Hanes am ysbwyr yn dychwelyd o wlad Canaan ac yn rhoi eu hadroddiad i Moses ac Aaron. Ma nhw wedi bod yn y wlad am ryw ddeugain niwrnod ac yn dod yn ôl ag 'adroddiad' go anffafriol o'r hyn a welsant. O'r deuddeg ysbwr – 10 yn erbyn meddiannu'r wlad, a dau, sef Caleb a Joshua o blaid. Geiriau y deg ofnus yw'r myfyrdod y tro hwn. Dyma chi gymhariaeth drawiadol – Cewri a Cheiliogod Rhedyn.

Ga'i rannu â chi tri pheth o leiaf yn y testun (y llythyren "D" i'n helpu):

Dynion yn Dychryn..... Dynion yn dychmygu a Dynion yn Dyfalu.

1. Dynion yn Dychryn ('Gwelsom yno gewri – meibion Anac.') Y mae'n amlwg fod y deg ysbwr hyn wedi dychryn wrth weld 'seis' y dynion 'ma. Y mae rhywun o hyd yn gweld cewri o'u cwmpas – y rhwystrau, y diffygion a'r anawsterau. Ry'n ni'n gweld corachod fel cewri pan ddaw ofnau, pryderon ac amheuan. Gwelant feibion Anac ar bob llaw. Ma na stori am Horatio Nelson (a gollodd un llygad mewn brwydr gyda'r llynges). Llongau y gelyn gerllaw, a swyddogion Nelson yn dweud wrtho am y perygl, gan estyn telisgôp iddo. Yntau yn gosod y teclyn wrth ei lygaid absennol ac yn ateb: "Gyfeillion, 'dwi ddim yn gweld unrhyw berygl."

2. Dynion yn Dychmygu ('Nid oeddem ni yn ein gweld ein hunain yn ddim mwy na cheiliogod rhedyn) Yn ymyl meibion Anac mae'r ysbwyr ofnus yn gweld eu hunain fel rhywbeth bach, disylw ac isradd. Clefyd yw 'e' sy'n gwneud ni i feddwl yn isel am ein hunan, ein bod ni ddim yn cyfrif o gwbl. Beth am stori anfarwol Dafydd a Goliath (yn un o feibion Anac.) Eryr mawr yn erbyn dryw bach. Cennad Duw oedd Dafydd ac yn y sicrwydd hwn nesaodd at y cawr i'w goncro. Gyfeillion – ma Cawr anfoesoldeb yn cerdded yn gryf yn ein gwlad ... cawr trais, cawr atgasedd a chawr diffyg ffydd yn herio Duw. Sut i fi a chi yn wynebu y cewri 'ma. Yn ôl at Dafydd: "Ti ydwyf yn dyfod ataf fi a chleddyf ac a gwaywffon – a minnau yn dyfod atat yn enw Arglwydd y lluoedd"

3. Dynion yn Dyfalu. ('Ac felly yr oeddem yn eu golwg hwythau') Gefelliadau yw dychmygu a dyfalu. Rwy'n credu fod yr ysbwr wedi mynd yn rhy bell, sef dehongli meddwl y cewri yma. Rhyfedd fel y mae llawer o bobl heddiw yn honni eu gallu yn y cyfeiriad hwn, a rhyfeddach fyth y nifer mawr sydd yn credu ynddynt. Cri am sicrwydd a glywir heddiw. Nid yw dyfalu yn gwneud y tro. Cyhoeddwn yn hyderus fod yr atebiad yn yr Iesu: "Mae'r gelyn yn gry" – ond cryfach yw Duw" Beth amdani? Beth 'yn ni'n weld – Cewri (Meibion Anac) neu Geiliogod Rhedyn?

Parch Lynn Evans

~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

Cadeirydd

Mererid Vaughan Jones
3 Llys Pencrug, Llandeilo
☎ (01558) 823839

Uwch Olygydd

J. Mansel Charles
Sarn Gelli
Llanegwad, Nantgaredig
Caerfyrddin, SA32 7NL
☎ (01558) 668823
☎ (07970) 031888
✉ yloffwr@papurbro.org

Ysgrifennydd

Rhian Morgan
☎ (01550) 777107

Trysorydd

Owain Siôn Gruffydd
☎ (01558) 825336

Swyddog Derbyn Taliadau

Fiona Walters
Banc Barclays, Llandeilo

Swyddog Hysbysebion

Wyn Williams
☎ (01550) 777834

Swyddog Gwerthiant

Ellyn Davies
☎ (01558) 650507

Swyddog Tanysgrifio

Eleri Jones
☎ (01558) 822353

Swyddog Clwb Cefnogwyr

Peter Harries
☎ (01558) 823075

Teipio a Chysodi

Menter Bro Dinefwr

Argraffu

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

Prawddarlenn

Gwenda Rees, Llandeilo

Golygyddion y Mis - 2005

Ionawr/Chwefror
J. Mansel Charles
Mawrth
Owain & Cerys Gruffydd
Ebrill
Elin Bishop
Mai
Len Richards
Mehefin
Christine Jones &
Mererid Vaughan Jones
Gorffennaf/Awst
Glenys Davies
Medi
T.M.Thomas
Hydref
Eleri Davies
Tachwedd
Lynwen Davies
Rhagfyr
Gwenda Rees

Cyfranwyr Misol

Y Golofn Grefyddol
Parch Lynn Evans
Tudalen y Fenter
Owain Siôn Gruffydd
Hwyl yn yr Ardd
Hywel Jones
Llecyn Llên
T.M.Thomas
Colofn Chwaraeon
David Dyer
Tudalen y Plant
Iona Llŷr
Croesair
Handel Jones (Agrestis)

Ffotograffydd
Gareth Vaughan Jones
Prif Ddosbarthwyr
Gwenlais Price
☎ (01550) 720114
Glyn a Rowena Davies
☎ (01558) 823340
Rhian Morgan
☎ (01550) 777107

DIOLCH AM
GEFNOGAETH

☎ (029) 2087 8000
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

DYDDIAD CAU

Rhaid i ddeunydd Lloffwr mis Rhagfyr
fod yn nwylo'r Uwch Olygydd erbyn 20 Tachwedd
RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG
Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

yloffwr@papurbro.org

Nid yw'r Lloffwr o reidwydd yn cytuno â'r ffram a adlewyrchir ym mhob un o'r eithyglau'r papur

~ TUDALEN Y PLANT ~



Y Gragen
Llandeilo


Annwyl Ffrindiau

Cwtshwch wrth y tân. Mae'r tywydd yn ddiflas - y gwynt, y glaw a'r oerfel. Tywydd chwarae gêmâu bwrdd a gwylio teledu yw hi.

Fyddwch chi yn dathlu Calan Gaeaf eleni? Fyddwch chi yn gosod Jac Lantern yn y ffenest ac yn two 'fale yn y tŷ? Cofiwch mai hwyl a sbri yw Calan Gaeaf.


Mae hi bron yn adeg Guto Ffowc hefyd. Mi fydda i yn cysgodi o dan y sied. Cofiwch chi gadw eich anifeiliaid anwes chi yn y tŷ dros gyfnod Tân Gwylt.

Hwyl am y tro,



Mal x

Lliwiwch y Llun



Chwilair Tân Gwylt

a	g	i	s	l	e	s	c	l	b
g	w	r	e	i	c	h	i	o	n
u	c	h	s	o	n	w	s	e	e
t	d	a	g	o	g	o	l	a	u
o	m	w	g	i	r	i	c	b	d
e	l	e	r	d	a	d	e	y	e
i	o	w	y	j	t	e	r	r	w
t	e	w	y	f	â	c	t	h	g
n	r	n	g	i	n	n	o	f	f
f	f	l	a	m	a	u	r	g	r

Coelgerth, Tachwedd, gwreichion, Guto, oer, fflamau, ffrwydro, olwyn, selsig, tân, llosgi, byrger, rocedi, sŵn, mwg, nos, golau.

Lliwiwch y pethau sydd angen ar noson tân gwylt



Llongyfarchiadau i **Chloe Jones**, 10 Heol y Garreg Las, Llandeilo a enillodd ym mis Hydref
BYDD GWOBUR Y MIS HWN ETO I'R UN GORAU
Anfonwch eich cynigion i: **Y Gilfach**, Heol Latimer, Llandeilo
erbyn 20 Tachwedd 2005



~ O'R YSGOLION ~

YSGOL TRE-GIB

Ffair Nadolig

Cynhelir y Ffair Nadolig yn Neuadd yr ysgol ar nos Wener 25 Tachwedd 2005. Dewch yn lluo i gefnogi.

Cynhyrchiad yr Ysgol

Cynhelir cynhyrchiad yr ysgol o 'Guys and Dolls' yn Neuadd yr ysgol fel a ganlyn:

Perfformiad Ysgolion Cynradd – prynhawn dydd Mawrth 13 Rhagfyr

Perfformiadau Hwyr: Nos Fercher, Nos Iau, Nos Wener a Nos Sadwrn, 14 15 16 a 17 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch

Athletau

Cafwyd canlyniadau gwych ym Mhencampwriaeth Athletau Dyfed a daeth y y disgyblion canlynol o adal Y Lloffwr i'r brig:

Dewi Griffiths (Llanfynydd - 1500m (torri record 1975))

Michael John (Carmel): 1af yn y Waywffon

Enillodd Dewi a Michael Bencampwriaeth Cymru yn eu cystadlaethau a gwobrwywyd Dewi â Thlws KirstyWade am berfformiad pellter canol gorau y dydd.

Mae Dewi hefyd yn Bencampwr Trawsgwlad Ysgolion Cymru, enillwr y fedal Efydd ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Prydain a Phencampwr Ysgolion Cymru yn 1500m.

Llwyddiannau eraill

Enillodd Tanya Dexter, Katie Bennett, Katharine Thane a Heidi Scott o Flwyddyn 9 £500 mewn cystadleuaeth gan REEP am ddylunio gardd ysbrydol – un o 4 ysgol ym Mhrydain

Enillodd y Clwb Garddio y Wobr Arian yng Nghystadleuaeth Ysgolion Eco. Cyflwynwyd y wobwr yn Highgrove (cartref y Tywysog Siarl) lle treuliodd y plant a'u hathrawon y diwrnod. Aelodau'r tîm yw: Tanya Dexter, Katie Bennett, Katharine Thane, Heidi Scott, Emyr Jones, Nicholas Morgan, Leon Jones, Sean Rickman, Sean Cromack, David Morris a Dafydd Davies

Llongyfarchiadau i Angharad Jones (Llanfynydd) Blwyddyn 11 gyrhaeddodd y rownd derfynol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan raglen Uned 5 ar S4C. Dewiswyd Angharad allan o ddisgyblion ledled Cymru i gystadlu mewn rowndiau coginio ac fe enillodd yr ail wobwr.

YSGOL GYFUN PANTYCELYN




Myfyrwyr hŷn yn Ysgol Gyfun Pantycelyn Llanymddyfri gyda mynydd o reis a phasta wedi ei roi gan ddisgyblion a staff i Apêl Cymorth Cymru Romania yn yr Ŵyl Gynhaaf a gynhaliwyd ar 5 Hydref.

Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan Sioned Dyer, Hayley Williams a Mared Tomos, cyn ddisgyblion o Ysgol Gyfun Pantycelyn, Llanymddyfri am eu profiad unigryw yn Awstralia yn cefnogi gwaith 'Joshua Foundation' dros blant sâl.



~ HYN A'R LLALL ~

APÊL PLANT MEWN ANGEN



Annwyl Ddarllenwyr

Bydd Apêl Plant Mewn Angen eleni ar ddydd Gwener 18 Tachwedd. Diolch i Vernon a Mary Jones, y Stryd Fawr, Llambled am roi benthyg yr ystafell lle roedd Siop Sgidiau V & M i fod yn ganolfan i dderbyn y rhoddion ariannol ar y dydd. Byddwn yno o 9 o'r gloch y bore tan 6 yn yr hwyr. Fel arfer edrychwn ymlaen i'ch gweld gyda'ch cyfraniadau, yn unigolion, cymdeithasau, siopau, capeli ac eglwysi, ysgolion, etc. Os na fedrwch ddod ar y dydd gallwch ei ddanfôn ymlaen i'r Mans, cyn neu wedi'r dyddiad. Cewch dderbyneb swyddogol am y cyfraniad, felly pob hwyl gyda'r Apêl.

Yn gywir iawn

Beti a Goronwy Evans a'r tîm gweithgar.

~ CYDYMDEIMLAD ~

Cydymdeimlwn â theuluoedd y canlynol a fu farw'n ddiweddar:

• **Mrs Eunice Davies**, 9 Bancydderwen, Derwn Fawr, priod y diweddar Dai a mam gariadus Valmai, Audrey, Eirwyn a'u teuluoedd.

• **Mrs Elizabeth Ann Jenkins**, 9 Stryd Tomos, Llandeilo, priod ffyddlon David a mam dyner Mair, Jim, Hywel, Nelian ac Eirwyn a'u teuluoedd a ffrind annwyl y teulu estynedig.

• **Mrs Elizabeth Mair Davies**, 32 Teras Tywi, Ffairfach, priod y diweddar Tim a mam annwyl Iorwerth a'i deulu.

• **Mr Bramwell Evans**, Maes-y-deri a Blackbush ger Pant-teg, Felin-wen gynt o Fferm Garnwen, Bethlehem, priod annwyl Rosemary a thad tyner Maureen, Siân, Meirion a Janet a'u teuluoedd. Gŵr hawddgar a chwmniwr da, amaethwr llewyrchus gyda diddordeb mawr mewn trîn a dysgu cŵn defaid.

• **Mr Robert Jenkins**, Waunfelen, Ffarmers yn dilyn cyfnod o salwch. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w wraig, y plant, a'r cysylltiadau oll.

• Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Derek Nash, Glanfron a Phill a Sue, 3 Bronfrena, Caio ar golli eu mam yn ddiweddar.

• Cydymdeimlwn â Elsbeth, Mansel, Lowri a Siân, Bronyrhaul, Caio ar ôl i Mansel golli ei fam ym mis Medi.

• Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Cilyllynfach, Talyllychau sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith a modryb sef Mrs Ceridwen Kirby o Rydychen ddiweddar mis Medi.

FFARMERS BRON Â CHIPIO'R WOBR!

Fel y soniwyd yn rhifyn Mis Awst o'r Lloffwr, bu **Ffarmers** yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth "Pentre'r Flwyddyn Calor De Cymru 2005" a thrwy hynny yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol i ddewis "Pentre'r Flwyddyn Cymru 2005."

Ymwelodd beirniaid â'r pentref ar y 9 Medi, gyda phlant Ysgol Carreg Hirfaen yn eu croesawu gyda chân. Yn dilyn hyn, cafodd nifer o drigolion yr ardal gyfle i wneud cyflwyniadau i'r beirniaid ar wahanol agweddau o fywyd y gymuned – yr ysgol, y neuadd, y dafarn gymunedol, y parc, yr amrywiol fudiadau gwirfoddol sy'n gweithio er lles trigolion y cylch. Yn ogystal â hyn, 'roedd nifer o arddangosfeydd wedi eu paratoi, a chafodd y beirniaid gyfle i weld a thrafod agweddau ar fywyd cymunedol yr ardal. Daeth yr ymweliad i ben gyda chwpaned o de a rhywbeth i'w fwyta.



Clawddnewydd ger Rhuthun oedd yn cynrychioli gogledd Cymru, ac ar yr 28 Medi, yng Ngwesty Dewi Sant yng Nghaerdydd, cyhoeddwyd canlyniadau pentre'r flwyddyn yn ogystal ag enillwyr y categorïau unigol. Clawddnewydd a ennillodd y brif wobwr, ac estynnwn ein llongyfarchion iddynt ar ei llwyddiant. Ail oedd Ffarmers dros Gymru, ond serch hynny, 'roedd pawb yn eitha bodlon o ystyried mae dyma'r tro gyntaf i'r pentre fentro mewn cystadleuaeth o'r fath, a hefyd, 'roedd 79 o bentrefi wedi ymgeisio yn wreiddiol, a dim ond un categori – Bywyd Cymunedol – wnaeth Ffarmers roi ar y cais. Daeth Ffarmers yn fuddugol yn y categori hynny, ac ennill £500 ynghyd â £500 am bentre'r de.



Cafodd pawb lawer o hwyl wrth baratoi ar gyfer y gystadleuaeth, a dysgwyd llawer am fywyd pentrefi eraill ar draws Cymru. Diolch i Calor am drefnu'r gystadleuaeth. Edrychwn ymlaen i roi tro arni eto flwyddyn nesaf.



Cafwyd cefnogaeth barod ein Cynghorydd Sir, Mr Eirwyn Williams, Cilgell, Cwman yn y gystadleuaeth, a chyfansoddodd englyn i goffâu y digwyddiad, a phleser gennym ei gyhoeddi yn Y Lloffwr.

Cymuned

Un criw a'r un dymuniad – yn morio 'merw'r un cyfeiriad â'r berw'n rhwyfo'r bwriad yn donau byw dan y bad.



Yn y lluniau (o'r golofn chwith i'r dde), gwelir:

- 1) Pentref Ffarmers
- 2) Dau o'r beirniaid yn sgwrsio â Phrifathro Ysgol Carreg Hirfaen
- 3) Y beirniaid yn edrych o gwmpas rhai o'r arddangosfeydd
- 4) Dychwelyd o'r Drovers' Arms (menter gymunedol yn y pentref)
- 5) Cynrychiolwyr o'r pentref yn derbyn tystysgrif Pentre'r De yng Ngwesty Dewi Sant, Caerdydd oddi wrth Syr Roger Jones, Cadeirydd y WDA a Mr Howard Kerr, Prif Weithredwr Calor.

CAIO

Cyrddau Diolchgarwch

Capel - Cynhaliwyd yr uchod ar nos Iau 22 Medi. Y bregethwraig wadd oedd Miss Betty Griffiths, Lledrod.

Eglwys – Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Plant Ysgol Caio prynhawn dydd Mercher 28 Medi, Cymerwyd rhan gan holl blant yr ysgol, ac fe bregethwyd gan y Parch. Adrian Legg, Ficer Llanwrda. Diolch i wragedd yr Eglwys am baratoi te blasus i’r plant ar ôl yr oedfa.



Gweler yn y llun – athrawon Eirlys Jones a Christine Lewis, Parch Adrian Legg a Parch Jo Panberthy.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys yn ystod gwasanaeth Cymundeb bore Sul 2 Hydref a braf oedd gweld cynifer o aelodau a ffrindiau yn bresennol.

Cymanfa Undebol Dyffryn Cothi

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Crugybar dydd Sul 2 Hydref gydag un oedfa yn y prynhawn. Diolch i’r holl blant am gymryd rhan wrth chwarae offerynnau a darllen yr emynau. Yr arweinyddes wadd eleni oedd Ann Thomas, Ffairfach gynt o Gilyllyn, Talyllychau.

Eisteddfod yr Urdd 2007

Cynhaliwyd cyfarfod ardal Caio, Cil-y-Cwm a Llanyrcrws yn Ysgol Gynradd Caio ar 26 Medi o dan ofalaeth Dyfrig Davies, Llandeilo. Dewiswyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd – Lyn Richards, Maesglas Is-Gadeirydd – Esme Jones, Llaindeg Ysgrifenyddes – Eirlys Jones, Aberbranddu Trysorydd – Marina Thomas, Caerdderwen. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Urdd Dyffryn Cothi

Cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol yr Urdd ar 30 Medi yn Neuadd Pumsaint. Y Swyddogion am y flwyddyn fydd: Cadeiryddion – Rosina Davies a Marina Thomas Trysorydd – Sheila Davies Arweinydd – Eirlys Jones Mwy o fanylion oddi wrth Rosina 01558 650227 neu Marina 01558 650558.

JOHN ANTHONY

a’i Gwmni

CERFLUNWYR
COFADEILIAU
a SEIRI MAEN



Perch. E. J a
N. Gimblett
(C. Harry gynt)

28a STRYD FAWR, RHYDAMAN
☎(01269) 596227 Nos: 592935

Cerflunwyr Cofadeiliau yn lle uchod ers 1920 hefyd yn

6 STRYD Y FARCHNAD, LLANDEILO
☎(01558) 823104

CIL-Y-CWM

Sioe Amaethyddol

Llongyfarchiadau i Eric Williams, Bridfa Cil-y-cwm am ennill y Brif Bencampwriaeth yn adran y ceffylau gyda’i eboles blwydd oed, adran ‘A’. Da iawn ‘Cil-y-cwm Gwenno’.



Carreg Goffa Morgan Rhys

Morgan Rhys 1716 – 1779
“Dewch hen ac ieuainc dewch”



Anodd cofnodi bod bron i ddeugain mlynedd wedi mynd heibio ers i bwyllgor cymanfa’r Methodistaidd Cil-y-cwm a’r Cylch fynd ati i osod carreg goffa i Morgan Rhys yn yr Efail fach a dan arweinyddiaeth y Parch Elwyn Pryce gweinidog yn y fro ar y pryd (*Gweler y garreg goffa yn y llun uchod*).

Cafodd yr Efail fach ofal cyson dros y blynyddoedd gan Eric Williams ond erbyn hyn roedd gwir angen adnewyddu a chael golwg newydd ar y lle. Ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Cil-y-Cwm a help Emyr John o Gyngor Sir Gâr fe fuom yn ffodus i gael cymorth ariannol gan Grantiau Cymunedol Sir Gâr a Rhaglen Amcan 1 Ewrop.

Erbyn hyn da yw dweud fod y gwaith wedi ei orffen a diolch i bawb a fu wrthi yn ddyfal. Diolch hefyd i William a Christine Theophilus, Fferm Rhiwmallaen am eu caredigrwydd am adael i ni droedio ar eu tir i hwyluso’r gwaith.

Fel rhan o’r prosiect crëwyd lle parcio i hanner dwsin o geir. Cul a throellog yw’r heol o Cil-y-Cwm i’r Efail fach.

Os yn teimlo yn egniol mae yna lwybr cyhoeddus yn arwain o ganol y pentref, heibio i Gapel y Groes i fyny dolydd, croesi’r afon fechan “Cryddir” ac ymlwybro ymlaen a dod allan wrth yr Efail fach. Fe fydd angen pâr o sgidiau cryfion arnoch.

Y Parch Tom Beynon a ysgrifennodd y llyfr “Golud a Mawl Dyffryn Tywi” ac fe ffeindiwch hanes diddorol am Morgan Rhys a’i deulu yn y llyfr. Croeso i bawb a ddél.

GERAINT WILLIAMS

Modurdy Rhosybedw
Ffaldybrenin

Gwasanaeth cyrff moduron ar
gyfer gwaith yswiriant neu breifat

☎(01558)
650609

Profion MOT, Batteries,
Exhausts
Gwasanaeth Adfer
ac Atgyweirio

~ ADOLYGU LLYFRAU ~

COFIO ARWYR O FYD Y BÊL

Rush, Ratcliffe a Horne, Owen a Speed – cyfoeth o dalent anhygoel o fydd y bêl, ac enwau sy’n ennill eu plwy ymysg oriel enwogion y gamp mewn llyfr newydd.

O ddarllen **Pêl-droedwyr Sir y Fflint** gan Steven Jones, gellir

tybio fod Sir y Fflint gyda’r gorau am gynhyrchu gallu aruthrol ym myd y bêl. Yn wir mae’n debyg fod y sir hon sy’n hofran ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, wedi cynhyrchu mwy o bêl-droedwyr ar gyfartaledd, nag unrhyw sir arall yng Nghymru, nag yn wir, ym Mhrydain.

Cyflwyno’r gyfrol chwaraewyr diweddar yn ogystal â rhai o hen ffefrynnau sydd

hwyrach yn anos i’w dwyn i gof bellach. Unigolion megis Mike England a Roy Vernon – chwaraewyr y byddai unrhyw reolwr gwerth ei halen yn torri ei fol i’w prynu, a charfan a fyddai’n ennill pob pencampwriaeth a chystadleuaeth cwpan sy’n bodoli!

Trwy broffilio chwaraewyr megis Ron Davies, Anthony Millington a Thomas George Jones mae **Pêl-droedwyr Sir y Fflint** yn olrhain Oes Aur y gamp yng Nghymru, yn ogystal â tharo golwg ar hanes y ‘Gêm Brydferth’ dros ddwy ganrif.

Mae’r gyfrol hefyd yn cyffwrdd ar agweddau mwy trasig y maes chwarae, gan gofio’r pêl-droediwr talentog hwnnw, John Lyons, a gyflawnodd hunanladdiad ac yntau prin wedi cyrraedd ei 26 mlwydd oed.

Dywedodd yr awdur – a chefnogwr brwd o’r gamp – Steven Jones,


“Un o’m prif gymhellion wrth ysgrifennu’r llyfr hwn yw ceisio sicrhau na fydd campau pêl-droed Sir y Fflint y gorffennol yn mynd yn angof.”

Ychwanega Steven, sy’n wreiddiol o Dreffynnon ond bellach yn byw yng Nghaerdydd,

“Cefais fraw yn ddiweddar wrth sylweddoli nad oedd fy nai ifanc o Dreffynnon erioed wedi clywed am bêl-droedwyr megis Mike England, Roy Vernon a Ron Davies. Ymgais yw’r llyfr bach hwn i geisio unioni’r cam hwnnw.”

Steven Jones

Gwasg Carreg Gwalch, £5.50



ylloffwr@papurbro.org

Rhaid i’r deunydd ar gyfer pob rhifyn fod yn nwylo’r Uwch Olygydd neu yn swyddfa Menter Bro Dinefwr erbyn yr 20fed o’r mis blaenorol. Bydd unrhyw ddeunydd a ddaw i law wedi hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y rhifyn dilynol.

ER MWYN CAEL Y LLOFFWR ALLAN
YN BRYDLON BYDDWN YN GLYNNU’N
DYNN AT Y DYDDIAD UCHOD

ALUN YR ARTH

Mae’r Lolfa newydd gyhoeddi’r chweched stori am Alun yr Arth. Y tro yma mae’r arth direidus yn troi’n fôr-leidr. Morgan Tomos, cynrychiolydd Y Lolfa yw awdur y stori a fe hefyd sydd wedi darlunio’r lluniau a chreu’r cymeriadau. Mae Alun yr Arth wedi cael llond bol ar chwarae gyda theganau, ac mae’n cael ei lusgo i siop lyfrau. Mae’n troi ei drwyn ar lyfrau i gychwyn ond mae’n cael gafael ar lyfr ar fôr-ladron Cymru. Mae’n cael ei hudo gan y llyfr ac wrth ddarllen y storiâu am Harri Morgan a Barti Ddu mae’n dychmygu ei fod e’n fôr-leidr - Capten Alun Wyllt! Wrth ddychmygu ei helyntion yn ymladd ar y môr mae’n chwalu’r siop lyfrau. Tuag at ddiwedd y llyfr daw’n amlwg i Alun bod llawer o sbort i gael wrth ddarllen llyfrau a drannoeth mae’n mynd yn ôl i’r siop i brynu rhagor o lyfrau.

Dyma’r chweched gyfrol yn y gyfres o lyfrau stori a llun i blant bach ac er mai stori syml iawn ydyw caiff neges pwysigrwydd darllen ei chyfleu yn gryf iawn, neges sydd yn amlwg yn agos at galon Morgan fel awdur a gwerthwr llyfrau a thad i ddau fachgen ifanc.

Mewn Adroddiad gan Banel Cloriannu ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru disgrifiwyd y llyfr fel,

“... enghraifft arbennig o lyfr lle’r oedd yr holl elfennau yn cywedithio’n dda - stori ddarllenadwy, testun o faint cyfforddus, a lluniau addas a deniadol.”

Dywedodd Garmon Gruffudd ar ran Y Lolfa. “Braf gweld cyfres wreiddiol fel hyn yn ffynnu yng ngwyneb yr holl addasiadau sy’n boddi’r farchnad.

Pris Alun yr Arth y Môr-leidr yw £2.95

LLWYBRAU LLÊN

Mae’r Lolfa newydd gyhoeddi llyfr newydd ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr sy’n astudio llenyddiaeth Gymraeg. Mae Llywbrau Llên, gan Emyr Llywelyn, yn cynnig arweiniad pendant ar sut i werthfawrogi a dadansoddi rhyddiaith a barddoniaeth Gymraeg. Mae’r awdur yn defnyddio ei brofiad a’i wybodaeth helaeth fel athro Cymraeg i esbonio hanfodion ysgrifennu creadigol mewn dull syml a hawdd ei ddeall.



Er bod y gyfrol wedi ei hysgrifennu gyda myfyrwyr sy’n astudio mewn ysgolion uwchradd mewn golwg mae Emyr Llywelyn

yn credu y bydd y gyfrol yn apelio at bawb sy’n hoffi barddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg. Dywedodd, “Lluniwyd y llyfr hwn gyda’r bwriad o gynorthwyo disgyblion ysgolion uwchradd ond rwy’n gobeithio y bydd y gyfrol yn werthfawr i oedolion sy’n dymuno gwerthfawrogi neu ysgrifennu barddoniaeth a rhyddiaith hefyd.”

Mae Emyr Llywelyn bellach wedi ymddeol, wedi bod yn athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Aberaeron am gyfnod hir. Mae yn adnabyddus fel awdur, ymgyrchydd a sylwebydd gwleidyddol ac fel golygydd Y Faner Newydd. Mae eisoes wedi cyhoeddi dwy gyfrol boblogaidd yn y maes sef Hwyl Ysgrifennu a Chrefft Ysgrifennu.

Llywbrau Llên - Emyr Llywelyn - £9.95 - 0862437814

Gellir cysylltu â Emyr Llywelyn drwy ffonio 01239 - 851 555 neu ei e-bostio fanernewydd@btinetnet.com



~ LLECYN LLÊN ~

Byd y Gynghanedd
Dyma gyflwyno un arall o feirdd y Mesurau Caeth. Un o’r beirdd dawnus a gynhyrchodd Bro’r Preselau oedd Llwyd Williams, cyfaill o’i ieuentid i ddau arall enwog o’r fro honno, sef Waldo Williams a W R Evans.
Cafodd ei eni ger Rhydwylym yn 1906 a chafodd ddychwelyd i huno yno wedi ei farwolaeth gynnar ac annisgwyl yn 1960, lle gwelir heddiw garreg fawr arw o fynydd y Preselau yn nodi man ei fedd.
Cychwynnodd Llwyd ei yrfa fel fferylllydd cyn troi i’r Weinidogaeth, ac wedi tymor ym Maesteg treuliodd y rhan helaethaf o’i fywyd yn Weinidog gyda’r Bedyddwyr yn Rhydaman. Yn ystod ei fywyd cyhoeddodd nifer o lyfrau, yn eu plith Crwydro Sir Benfro, Hanes Rhydwylym, Tua’r Cyfnos, Hen Ddwylo a chyfrol o’i farddoniaeth, ‘Tir Hela.’ Ef hefyd oedd awdur y gân adnabyddus ‘Pwy fydd yma mewn can mlynedd.’ Wedi llwyddo i ennill ar yr Englyn a’r Delyneg yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn 1953 gwelwyd ef yn ennill y Gadair am Awdl ar y testun ‘Y Ffordd’ a dilyn y gamp yn 1954 drwy ennill y Goron yn Ystradgynlais.
Er taw mewn trefi diwydiannol y treuliodd ran fawr o’i oes, yn y wlad oedd ei galon fel y dengys nifer fawr o’i gerddi. Dyma ddarn allan o gywydd sy’n dilyn rhai o atgofion bore oes.

Tir Chwarae
Yma’n gynnar y carwn
Hela’r coed a gwylio’r cŵn;
Gyrru llwynog o’r llennyrch
Ac amgáu ei ffau a ffyrch.
Gweld nyth cynnes y ffesant
Is perth cae siprys y pant;
Rhodio gwaun yr hwyaid gwyllt,
Troi i wynfa taranfyllt
Gyda hwyf ergyd o wn,
A chwilgar Iechu helgwn.

A dyma ei ddymuniad,
Ni charwn ddim gwell bellach
Nag ail fyw, cael egwyl fach
I hela gwaun, dôl a gwŷdd,
A llunio camp llawenydd;
Tasgu’n wyllt, osgoi hen wanc
A thyfu’n eilwaith ifanc.

Ni fydd Telyneg fel rheol yn gallu hawlio lle yn y golofn hon am nad oes ynddi gynghanedd, ond mae hon gan Llwyd yn anarferol am ei bod wedi ei chynghaneddu.

Y Lleuad Fedi.
Ysgub a phendrwm osgo a welais
Ar niwlog nos,
A lliw Hydrefau’r lleuad yn gleinio
Siglennydd rhos.

Yr ysgub ym mro’i hesgor yn wylaidd
Ar wely oer,
Ymhlith y tryfrith efrau yn hiliog
Addoli’r lloer.

Arhosais ar erw risial niwl llewych
Y lleuad lawn,
Crwydro’r tir hoff a lloffa tawelwch
Talar y grawn.

Deuwn nawr at y tasgau a osodwyd i chi. Dyma rai o’r ffyrdd i’w gorffen.

Cynghanedd Lusk -
Yr oedd ef (yn ei nefoedd), (o dan glefyd), (yno’n llefain).
Mae’r awel (yn troi’r felin), (yn tawelu), (fel sw n telyn).

Cynghanedd Draws -
Mi awn (i olwg y môr) (i brynu menyn), (i fyny’r mynydd).
Mae eraill (yn llawn miri), (am gymharu), (gyda’r Mari).

Cynghanedd Groes -
Dau annwyl (yw y dynion), (wedi huno), (a dawnus).
Hwnyw’r gŵr (awna’r gwaith), (nawr i’w guro), (hanner gwyllt).

Cynghanedd Sain -
Mor braf yw’r haf (ar ei hyd), (a hir hefyd), (ym Mehefin)
Mi glywais ei llais (hi yn llon), (yn y lle), (yn dod o’r llwyn).

A dyma ragor o waith cartref.

Cynghanedd Lusk - Rwy’n gweled –
Mi af –

Cynghanedd Draws - Mae’r ci –
Aeth y gath –

Cynghanedd Groes - Draw y gwelais –
Yn ofalus –

Cynghanedd Sain - Noson lon –
Galwad ei dad –

Anfonwch eich cynigion i T M Thomas, Tirallen, Llanwrda erbyn 12 Rhagfyr.

T M Thomas

CARPEDI PUMSAINT
Gwasanaeth gosod carpedi hen, ail-osod neu newydd
Ffoniwch Alun
(01558) 650364
neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,
TWISTS, GWLAN, CORDS,
CUSHIONFLOOR,
UNDERLAYS

“Carpedi i Siwtio Pawb”
Gellir trefnu ymweliad â’r cartref gyda samplau.

A & B PLANT HIRE & TOOL HIRE

Bryndolau, Ffarmers Llanwrda
☎ (01558) 650536
Ffacs: (01558) 650516

HIRE ASSOCIATION EUROPE

hefyd yn -
The Old Slaughterhouse
Heol Llanfair, Llambed
☎ (01570) 422522
Ffacs: (01570) 421453

Cysylltwch â’ch asiant lleol am
HURIO ~ GWERTHU ~ GWASANAETH ~ RHANNAU ~ ATGYWEIEIO
AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

CYNLLUNIAU
Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau

MARTIN WATTS

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr
Ffôn: Llangadog (01550) 777591

CWM-DU



Capel Providence
Y pregethwr gwadd yng nghyfarfod diolchgarwch Capel Providence nos Iau 29 Medi oedd y Parchedig Emlyn Dole. Croesawyd nifer o gyfeillion o gapeli eraill yn yr ardal i’r oedfa.

Mynd ar Daith
Cafodd nifer o bobl o ardal Cwm-du gyfle i fynd ar deithiau arbennig iawn yn ystod y mis diwethaf. Trefnodd Hywel Jones daith hyfryd ar y trên o Landeilo i’r Amwythig a chafodd y teithwyr fodd i fyw wrth deithio ar reilffordd y canolbarth ar ddiwrnod hyfryd o Hydref a chael prynhawn braf i fwynhau atyniadau’r dref arbennig hon ar y gororau.
Roger a Glenda Thomas a drefnodd y daith i aelodau’r clwb buddsoddi a’u ffrindiau i Gaeredin ddydd Mawrth 4 Hydref. Profiad pleserus a chyffrous oedd hedfan o Gaerdydd a chyrraedd Caeredin mewn amser byr. Cawsant dri diwrnod diddorol yn y ddinas hynafol gan fwynhau’r siopau a phensaerniaeth arbennig yr adeiladau.
Diolch yn fawr iawn i Hywel, Roger a Glenda am y trefniadau manwl ar gyfer y ddwy daith.

Ymweliad Dirprwy Weinidog i Landeilo
Teithiodd Tamsin Dunwoody-Kneafsey, y Dirprwy Weinidog dros Ddatblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth gyda chyfrifoldeb arbennig am Drafnidiaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol, ar y trên o Abertawe i Landeilo. Fe’i croesawyd hi yno gan gynrychiolwyr Trenau Arriva Cymru (TAC), twristiaeth leol, cyngorwyr sir, meiri trefi Llandeilo a Llanymddyfri, ynghyd â sawl gwirfoddolwr lleol sydd fel chi wedi mabwysiadu gorsafoedd ac sy’n cefnogi Rheilffordd Calon Cymru. Yn yr orsaf fe wnaeth hi lansio’r bwrdd dehongli newydd a’r pwynt gwybodaeth tro pedol hefyd, sy’n rhoi gwybodaeth gyfredol am dref Llandeilo. Teithiodd pawb ohonom o’r orsaf a mynd o amgylch tref Llandeilo mewn Leyland Jones Rhyngwladol 1948, er mwyn cyrraedd Gwesty’r Cawdor am goffi.

Yng Ngwesty’r Cawdor fe gafodd hi’r cyfle i ail-lansio’r cerdyn rheilffordd arbennig sydd ar gael i rai sy’n byw mewn cymunedau gerllaw’r llinell. Am £5 y flwyddyn, mae’r cerdyn yn rhoi’r hawl i’r deiliad gael gostyngiad o draean oddi ar bris tocyn wrth deithio i unrhyw le rhwng Abertawe ac Amwythig.

(Yn y llun gweler David Edwards, Swyddog Datblygu Rheilffordd Calon Cymru yn troi olwyn y Blwch Gwybodaeth tro pedol a Tasmin Dunwoody-Kneafsey yn dangos y cerdyn teithio).

Taith y Tractor
Gwyddom ers rhai blynyddoedd am ymroddiad brwdfrydig aelodau’r Clwb Clasurol a’u diddordeb yn eu cerbydau o dras. Yn ogystal â hyn maent wedi defnyddio’r cerbydau i gefnogi elusennau teilwng yn y fro.

Trefnwyd taith noddedig ar gyfer 22 o dractorau er mwyn codi arian ar gyfer elusen Ambiwylans yr Awyr. Yn anffodus bu’n rhaid galw ar wasanaeth yr Ambiwylans arbennig hwn lawer gwaith yn yr ardal a charai aelodau’r Clwb Clasurol ddiolch i’r noddwyr am eu cefnogaeth a’u haelioni.

Cafwyd taith gyffrous o Gwm-du i’r Moelfre, Carmel, Rhydodyn, Llanbedr Pont Steffan, Llanwrda, Porthyrhyd a thrwy’r goedwig yng Nghaio i dafarn Dolau Cothi i gael cinio. Bu’r daith yn hwylus ar wahân i un tractor anffodus a gollodd olwyn ar y ffordd.

Daeth y swm anrhydeddus o £500 i law a charai’r pwyllgor ddiolch i bawb am eu haelioni a’u cefnogaeth.

Ymweliad Merched y Wawr
Nos Iau, 6 Hydref, croesawyd aelodau Merched y Wawr, Nantgaredig i gael pryd o fwyd yng Nghwm-du ar ôl talu ymweliad â fferm hynafol Aberdeunant.
Daeth tua 30 o wragedd i’r bwyty i fwynhau’r cinio a baratowyd gan Catrin gyda chymorth Judy a Joanne a phleser oedd cael eu cwmni yn y pentref.

Y Diwrnod Afalau
Bu’r Diwrnod Afalau blynyddol yn llwyddiant mawr unwaith yn rhagor gan dynnu sylw Radio Cymru a chwmni teledu Telegôp yn ogystal â thrigolion ac ymwelwyr ffyddlon.

Ymwelodd Rebecca Jones o raglen y Post Cyntaf â Chwmdu fore Iau 6 Hydref er mwyn sgwrsio â Jack Thomas, Hywel Jones a Janet James am bwysigrwydd ac arwyddocâd yr afalau a’r Dydd Afalau yn y pentref. Clywyd lleisiau trigolion eraill yn y cefndir a darlledwyd yr eitem ar Radio Cymru fore Gwener 7 Hydref.

Talwyd sylw arbennig hefyd i’r achlysur gan Sioned McCue o gwmni Telegôp a darlledwyd eitemau ar raglen ‘Ffermio’ y nos Lun ganlynol.

Bu’r criw ffilmio yn ddiwyd yn ffilmio’r gweithgareddau trwy’r dydd a chafwyd cyfweliad gan Hywel Jones a soniodd am bwysigrwydd cymdeithasol yr achlysur ynghyd â mwynhad y cystadlu. Daeth Henry Ferguson Thomas a Paul Davies i enwi’r afalau ac i roi cyngor a gwasgwyd sudd afalau er mwyn i’r bobl ei flasau. Roedd y plant wrth eu bodd yn dwco fale ac yn cael tro ar y gystadleuaeth saethyddiaeth.

Croesawyd Dewi Roberts, Ffairfach i feirniadu’r gystadleuaeth goginio i rysâit yn cynnwys afalau a chanmolodd yr holl gystadleuwyr ar eu cynnyrch. Dyfarnwyd y wobwr gyntaf i Janet James, Dolwerdd am ei theisen afalau Norwyaidd a goginiwyd gyda’r afal blasus Pig yr ŵydd; yr ail wobwr i Dawn Richards, Llanelli am deisen afal meringue hyfryd a’r drydedd wobwr i Sheila Opie, Crug-y-bar am chutney afalau. Bu gwerthiant da ar y llyfryn o ryseitiau o waith trigolion lleol gan Kate Arblaster, Ffoslas.

Cystadleuaeth ddiddorol a phoblogaidd oedd pilo fale gyda’r wobwr yn cael ei dyfarnu am y pil hiraf. Yr enillydd oedd Colin Foster.

Bu Catrin, Judy, Janet, Jo a Claire yn brysur yn gweini te, coffi a theisennau a phawb yn mwynhau’r gweithgareddau amrywiol a’r sgwrs ddifyr.



(Gweler yn y llun uchod Catrin James gyda phil afal)
Diolchwn i bawb a fu mor brysur yn sicrhau llwyddiant y diwrnod ac i Hywel Jones am drefnu Radio Cymru a chwmni Telegôp i ymweld â’r pentref ar Ddiwrnod Afalau.

CWRT HENRI

Gweithgaredd

Yng nghyfarfod blynyddol Pwyllgor yr Ystafell Ddarllen penodwyd y canlynol yn sywddogion :

Cadeirydd : Lynda Evans, Typicca

Is-Gadeirydd : Sally Dukes, 1 Park Henri Villa

Trysorydd: Maldwyn Griffith, Ael-y-bryn

Swyddog Llogi'r Neuadd: Susan Childs, Sŵn-yr-afon.

Trefnwyd cynnal noson goffi ar 18 Tachwedd a thrafodwyd yn helaeth y posibiladau o wneud gwaith adnewyddu mawr i'r neuadd ac i ddulliau o ariannu unrhyw fenter gyffelyb.

Dan drefniant Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Cwrt Henri cynhaliwyd Noson Ginio a Dawns yn Neuadd Llangathen. Agorwyd y noson gan y brifathrawes, Carol Thomas a llywyddwyd gan Janet Thomas, Tycoch. Noson hwylus iawn i'r pedwar ugain a fu'n gwledda. Trefnir gwibdaith i wneud siopa Nadolig yn Cribbs Causeway, Bryste ar 19 Tachwedd. Enwau i Janet Thomas ar 01558 668264.

Eglwys y Santes Fair

Bellach mae'r gwaith o atgyweirio amrywiol dasgiau yn yr Eglwys wedi eu cwblhau ac i ddathlu'r ffaith cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar fore Sul 30 Hydref pan bregethwyd gan y Tra Barchedig Wyn Evans, Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

CWRT-Y-CADNO

O'r Capel

Bellach mae tymor yr Hydref o Gymdeithas Capel Cwrt-y-Cadno wedi ail gychwyn gyda chyfarfodydd diddorol a buddiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd bob nos Fawrth. Os am fanylion pellach cysylltwch ag Alun Williams ar 01558 650364.

Ar nos Wener 18 Tachwedd am 6.30pm cynhelir y Cyfarfod Cystadleuol blynyddol gyda nifer sylweddol o gystadlaethau cyffrous. Gellir cael manylion y cystadlaethau llenyddol oddi wrth Rhiannon Merthyr 01558 650231 neu o law Eirlys Jones 01558 650361.

CYNGHORDY

Gwragedd Gwledig

Ar 6 Medi cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol pan ddiolchodd y Llywydd newydd Marian Griffiths i Jean Hokins am ei gwaith trylwyr tra yn y gadair. Etholwyd Pat Crane yn Is-lywydd. Dewinio oedd pwnc y siaradwraig Sandra Davies o Lanymdyfri.

Ar 4 Hydref cafwyd hwyl gyda chwis a oedd yn addysgiadol a diddorol a drefnwyd gan Barbara Knight. Yr enillydd oedd Margo Sweeting.

FFARMERS

Neuadd Bro Fana

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur yn y Neuadd gydag amrywiol weithgareddau. Ar y 30 Medi, daeth Cwmni Drama'r Mochyn Du o ardal Brynberian yn Sir Benfro i'n diddori gyda dwy ddrama gomedi – "Y Fainc" a "Last Panto yn Ffynnongroes." Llywydd y noson oedd un o blant yr ardal - Ann Davies, Brynmeiog – un sydd bellach yn dilyn gyrfa lwyddiannus yng Nghaerdydd, ond yn amlwg heb anghofio'i gwreiddiau. Cafwyd araith bwrpasol ganddi yn dwyn atgofion o'i phlentyndod, a dylanwad magwraeth cefn gwlad ar ei

bywyd. Bu hefyd yn sôn am hanes yr ardal, a'r traddodiad diwylliannol o fewn y gymdogaeth. Noson arbennig gyda phawb wedi mwynhau.

Ar brynawn Sul, yr 2 Hydref, cafwyd cyngerdd gerddorol dan nawdd Eglwys Llanycrwys. 'Roedd Elizabeth Bryan, Pantunos, a oedd ar un adeg yn chwarae'r soddgrwth (*cello*) yn broffesiynol, ynghyd â Dorothy Wilson, Cwmann sydd yn canu'r piano, wedi trefnu cyngerdd arbennig gyda pherfformiadau o waith *Handel, J.S. Bach, Schubert, Elgar, Mendelssohn a Paul Bazelaire*. Hyfryd oedd clywed cerddoriaeth glasurol yn cael ei gyflwyno i'r fath safon mewn Neuadd wledig. Gobeithio'n wir y cawn gyfle i brofi cerddoriaeth o'r fath safon eto'n fuan.

Yr Athro Hywel Teifi Edwards a ymwelodd â ni ar yr 21 Hydref i draddodi darlith ar "Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago – 1893." Llwyddodd i ddiddori'r gynulleidfa am ddwy awr gyda chefnid yr Eisteddfod, sefyllfa Cymru a'r Cymry yn y cyfnod, dylanwad a phwysigrwydd y corau mawr, a llawer, llawer mwy. Y farn gyffredinol oedd y gallai pawb fod wedi gwrandao am ddwy awr arall. Gobeithio y cawn gyfle i'w groesawu'n ôl i Ffarmers eto'n fuan.

Wrth sôn am y gweithgareddau yma, rhaid diolch i TYWYS sydd yn barod i gefnogi gweithgareddau diwylliannol a drefnir gan y Neuadd, a hefyd i DEWIS sydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer rhai o'r gweithgareddau a gynhelir yn y Neuadd. Mae cyfraniad y ddau fudiad yma yn bwysig ac yn werthfawr. Diolch.

Mae gan y Neuadd gyfeiriad e-bost ei hun erbyn hyn, sef neuaddbrofana@postmaster.co.uk. Felly, os ydych am archebu tocynnau ar gyfer digwyddiadau yn y Neuadd, neu am wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â ni drwy e-bost.

Cofiwch fod Côr Godre'r Aran yn ymweld â Ffarmers ar y 19 Tachwedd o dan arweiniad Eirian Owen. Mae'r Côr yma wedi teithio'n eang, ac wedi cynnal cyngerddau ar draws y byd. Bydd tri o unawdwyr adnabyddus yn dod gyda'r Côr, sef Tom Evans (Gwanas) – Bariton; Trebor Lloyd Evans – Bâs Bariton; a Siôn Goronwy – Bâs. Mae rhaglen amrywiol a safonol wedi ei pharatoi ar ein cyfer, ac edrychwn ymlaen at wled o ganu. Llywydd y Noson yw Mary Walnycki (Sychnant gynt) sydd bellach yn byw yng Nghaerfyrddin. Er bod teulu Mary yn hanu o'r Ukraine, cafodd ei magu yn Ffarmers, ac yn dal cysylltiad agos â'r ardal o hyd. Os ydych am docynnau, cysylltwch ag aelodau Pwyllgor y Neuadd yn fuan – mae galw mawr am docynnau – neu defnyddiwch ein cyfeiriad e-bost, neu ffoniwch 01558 650507.

Ar nos Sul, y 18 Rhagfyr, cynhelir ein Gwasanaeth Carolau blynyddol yn y Neuadd, gyda'r Eglwys a Chapeli'r cylch yn ymuno i gynnal oedfa o foliant i ddathlu'r Nadolig. Eleni, byddwn yn croesawu Rhian Lois Evans a Peter Horton - y ddau yn gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron, ac yn enillwyr yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd eleni – i ganu yn y gwasanaeth. Ym mis Ionawr, bydd Theatr Fach Abertawe yn perfformio drama Dylan Thomas – Dan y Wenallt – yn y Saesneg, ac ym mis Chwefror, ceir Darlith gan Erwyd Howells, Capel Madog, Aberystwyth – "Bywyd Bugail."

D. L. WILLIAMS

Iard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

Masnachwr llechi a phob math o goed


Bwyd anifieliaid Bibby

☎ (01558)685217(dydd) / 685722 (nos)

~ HWYL YN YR ARDD gyda Hywel Jones ~

Y TIWLIP

Tiwlip yw un o'r blodau sydd yn croesawu'r Gwanwyn ar ôl cyfnod tywyll di-liw y gaeaf. Mae ganddo ffurf hyfryd ac amrywiaeth o liwiau prydferth. Wrth blannu'n ofalus, mae'n bosibl i gael blodau o ddiwedd mis Chwefror hyd ddiwedd mis Mai (gweler y tri darlun). Yn gyffredinol mae'r bwlb tiwlip yn cynnwys yr holl elfennau anghenrheidiol o'r tu mewn i fwyda'r blodyn drwy dymor y blodeuo. Rheswm da felly i brynu bylbiau o ansawdd da yn y lle cyntaf. Gellir eu prynu



mewn meithrinfeydd sydd yn arbenigo yn y bylbiau. (Gweler llun bylbar y chwith).

Cartref gwreiddiol y tiwlip yw yng ngwlad Twrci, ble mae'r gaeaf

yn aruthrol o oer, gwanwyn gwlyb, ac haf poeth, ffeithiau pwysig i'w cofio wrth fynd ati i dyfu'r rhain. Dylid prynu bylbiau sydd yn mesur tua 4cm mewn diamedr, neu 12cm o amgylch, eu harchwilio yn ofalus a gwneud yn siŵr fod yna ddim arwydd o friw, clais neu' lwydni gwyn arnynt. Mae'n fanteisiol i archebu yn gynnar er mwyn sicrhau amrywiaeth o ddewis gorau am bris rhesymol. Wedi dewis a phalu'r llecyn plannu i ddyfnder o 30cm dylid ychwanegu tua 50gram i bob medr sgwar o wrtaith sydd yn uchel mewn potas, gan fod y gwrtaith yma yn sicrhau bod y gwreiddiau yn datblygu, yn gryf ac yn iach. Os defnyddir un sydd yn uchel yn Nitrogen, gall hyn achosi'r coesgyn dyfu yn rhy hir yn ystod tymor y blodeuo, gyda'r posibilrwydd o gael ei ddifrodi gan wynt. Dylid plannu y bylbiau o fis Hydref hyd ddiwedd mis Tachwedd mewn dyfnder o tua 10cm, gan ollwng tua 15 cm rhyngddynt, ychwanegu ychydig o dywod siarp, pupur neu wenwyn, er mwyn eu diogelu rhag cael eu bwyta gan lygod bach. Os taenir gronynnau sy'n atal malwod ar wyneb y pridd byddent yn cadw'r malwod i ffwrdd. Wrth gynllunio'n ofalus a phlannu gwahanol fathau gellir cael blodau o ddiwedd fis Chwefror (Gwanwyn cynnar) e.e. Mickey Mouse, Ebrill (canol Gwanwyn) e.e. White Dream a mis Mai (diwedd Gwanwyn) e.e. Queen of the Night (gweler lluniau).



White Dream ar y chwith a Mickey Mouse i'r dde



(Gweler llun Queen of the night ar y chwith).

Os am flodau ar gyfer y tŷ, dylid eu torri yn gynnar yn y bore, a dewis blodau sydd ar fin agor, eu gosod mewn dŵr clauer am awr, eu tynnu allan gan ail dorri 'r goes a'i gosod mewn fas arall o ddŵr.

Mae'r tiwlip yn agored i ymosodiad gan Aphids, gall rhain ddifrodi'r blodau yn gyfan gwbl. Os am

flodau o safon yn flynyddol, dylid codi y bylbiau yn flynyddol ar ôl gorffen blodeuo, tua diwedd mis Mai, a'i storio mewn man gweddol sych a thywyll. Dylid ychwanegu ychydig o bowdr 'anti fungal' megis "Yellow Sulphur," yna plannu allan ym mis Hydref. Os gadewir y bylbiau yn y ddaear dros yr haf, nid ydynt yn cael chwarae teg, oherwydd y bydd blodau arall yn cael eu plannu fel "blodau haf" yn yr un safle. O ganlyniad mae hyn yn gallu eu haflonyddu, ac yn agored i "tulip fire" a "tulip grey bulb rot".

Doeth yw newid y safle bob dwy flynedd i osgoi y clefydau hyn.

Sensations

For Floral Occasions

Y gwasanaeth blodeuog gofalus cyflawn
Gofynnwch am benodiad neu am ymweliad neu rhoch archebiad dros y ffôn ac fe wnewn ni ddsbarthu

Arbenigwyr mewn
Blodau priodas (ffres neu sidan)
Blodau ar gyfer pob swyddogaeth
Blodau angladdau (traddodiadol neu unrhyw steil)

Hefyd ar gael
Planhigion, potiau, blodau sidan, blodau sych

Galwch
Rosemary ~ 01558 824238
Farmyard Nurseries, Heol yr Orsaf, Llandeilo





LLOGI CESTYLL NEIDIO

Beth am roi hwyl a sbri i'r parti?!
Cestyll bownsio tu fewn neu'r tu allan

Prisiau o £35 y dydd
Nifer o gestyll â themâu gyda llithren
Dosbarthiad am ddim o fewn 15 milltir

☎ (01269) 850051



~ CHWARAEON ~

PORTHMYN LLANYMDDYFRI

Does dim amheuaeth nad yw y safon yn yr Uwch Gynghrair yn codi bob tymor achos bod mwy o chwaraewyr ifanc yn yr academïau rhanbarthol ac mae’r chwaraewyr yn yr Uwch Gynghrair yn gorfod ymdopi â safonau uwch chwaraewyr proffesiynol.

Er bod y tim rheoli ym Manc yr Eglwys wedi gwneud ymdrechion teg iawn yn ystod yr haf i ddenu chwaraewyr newydd a gwella safon y tim cyntaf mae canlyniadau positif yn mynd yn galetach i’w gael. Mae’r tim hyfforddi yn dod i ddeall y safonau sy’n angenrheidiol ar y lefel yma tra bo nifer o’r chwaraewyr ifanc yn ei chael hi’n anodd i ddod yn gyfarwydd â’r safonau newydd sydd eu hangen ar lefel uwch na’r hyn y buont yn gyfarwydd ag ef.

Ar ôl chynnwrf y llwyddiant yn erbyn Maesteg daeth realaeth yn go gloi yn y golled crom yn erbyn Cross Keys. Ers hynny mae’r Porthmyn wedi colli pob un o’r pump gêm er bod pob un wedi bod yn rhai agos.

Camgymeriadau gwael yn erbyn Pontypŵl, colled o un pwynt yn erbyn Casnewydd, cadw Pontypridd o fewn cyrraedd am 70 o’r 80 munud a cholli 21-13 yng Nghaerdydd er bod Y Porthmyn wedi bod ar linell Caerdydd am y chwarter awr olaf. Mae yna agweddau positif i’r gemau hyn i gyd. Yn erbyn Crwydriaid Morgannwg fe gollwyd eto o 22-17 ac fe fethwyd â gorffen dau gyfle clir. Ond yr wythnos ddiwethaf fe welwyd y perfformiad gwaethaf. Roedd y gêm yn erbyn Bedwas yn gyfle gwych i’r Porthmyn i ddringo i fyny’r tabl. Ond fe gafwyd gêm o safon isel iawn ac fe adawodd y Porthmyn i’r ymwelwyr ennill o 16-11. Roedd y ffyddloniaid hyd yn oed yn dechrau amau.

Ar hyn o bryd rydym un safle o waelod y gynghrair ac mae chwarter y gemau wedi eu chwarae.

Mae’r adnoddau gorau gennym ym Manc yr Eglwys, mae’r clwb yn rhan anatod o’r gymuned. Roedd wyth chwaraewr o’r ail dîm yn chwarae i’r tîm rhanbarthol ddoe, mae tîm yr ieuencid heb ei gorchfygu tymor yma ac mae’r timau o dan 6 hyd at dan 16 yn ennill yn rheolaidd.

John Kendrick

PYSGOTA - ADRODDIAD DIWEDD TYMOR

Ar ôl dechrau addawol i’r tymor tawel aeth y pysgota ar ddiwedd mis Mai a dechrau Mehefin, doedd dim gymaint o sewin mawr ag a ddisgwylwyd. Er hynny, fe ddaliwyd rhai pysgod, yr un mwyaf tua 10 pwys gan Greg Jones.

Erbyn mis Gorffennaf ac Awst fe welwyd nifer fawr o sewin bach rhwng 1 a 2 bwys, ond eto lle’r oedd rhai pyllau yn llawn roedd pyllau eraill yn wag. Daeth mis Medi gyda phawb yn gweddio am law trwm i ddod ag eog i fyny ac, ynghyd â dŵr



o Lyn Brianne fe ddaeth, yn niwrnodau olaf y mis. Daliwyd rhai eog, cafodd Vaughan Roberts un 9 pwys, a Terry Loynton un 6 pwys. Hefyd daliwyd sewin da o 14 pwys gan Jamie Harris. Diddorol yw sylw mai yr un bobl sydd wedi dal eto. (Gweler Steffan Jones gyda Sewin o’r afon Tywi yn y llun)

Braf yw medru dweud bod Ethan Jones (8 mlwydd oed) Steffan Jones (11 oed) ac Aled Jones (13 oed) i gyd wedi dal sewin 3 pwys ym misoedd olaf y tymor. Gyda thymor pysgota 2005 wedi gorffen, mawr obeithiwn bod y pysgod yn gwneud eu gwaith, a sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o bysgotwyr yn medru eu mwynhau.

Aled Davies

~ HYN A’R LLALL ~

Rhwydwaith



Mae Papurau Bro Cymru am gael hwb sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf wrth i asiantaeth fenter Antur Teifi gael arian grant Ewropeaidd Amcan 1 i sefydlu Rhwydwaith Papurau Bro.

Mae’r Rhwydwaith wedi ei lunio er mwyn i’r papurau bro gael dysgu arfer da wrth ei gilydd, ac er mwyn denu mwy o wirfoddolwyr i gyfrannu at y papurau bro.

Meddai Megan Jones, gweithredydd y Rhwydwaith: “Datblygiad o arbrawf llwyddiannus y Prosiect Papurau Bro a gynhaliwyd yn Sir Gâr wledig yw’r rhwydwaith. Mae’n ffordd o ledauen’r profiad a’r llwyddiannau a gafwyd wrth weithio yn fwy uniongyrchol gyda’r papurau bro yn yr ardal honno.

Mae’r Rhwydwaith Papurau Bro yn rhaglen a fydd yn weithredol ar draws ardal Amcan Un, a’r nod yw galluogi’r papurau i ddenu mwy o wirfoddolwyr a fydd yn sicrhau llwyddiant hir-dymor y papurau. Bydd llyfryn yn amlinellu’r arfer da sydd eisoes yn bodoli ymhlith ein papurau bro yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd cyfnod y rhaglen, ac fe fyddwn yn trefnu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau rhanbarthol i roi cyfle i’r gwirfoddolwyr gwrdd a’i gilydd er mwyn rhannu profiadau. Gallwn hefyd drefnu hyfforddiant perthnasol, ac edrych ar y cyd gyda nhw ar gyfleoedd i dorri costau a chynyddu incwm.”

Mae BBC Cymru’r Byd yn chwarae rhan blaenllaw yn y rhwydwaith gan y byddan nhw yn cyhoeddi erthyglau y cyfranwyr ifanc ar eu gwefan ‘Lleol i Mi’, sydd eisoes yn cyhoeddi amryw o erthyglau y papurau bro.

Meddai Elin Wyn Davies ar ran BBC Cymru’r Byd: “Rydyn ni’n falch iawn i fod yn rhan o’r prosiect hwn, ac yn edrych ymlaen i dderbyn erthyglau bywiog a difyr gan bobl ifanc ar draws Cymru i’w rhoi ar ein gwefannau Lleol i Mi ar BBC Cymru’r Byd. Mae’n gyfle da i bobol ifanc ar draws Cymru ysgrifennu erthyglau Cymraeg am ddigwyddiadau lleol, a gweld eu gwaith wedi ei gyhoeddi yn y papurau bro ac ar y we. Mi fydd yn bywiogi cynnwys y papurau bro, yn ogystal â’n gwefannau lleol ni. ”

Mae’r papur wythnosol Y Cymro hefyd yn cyfrannu at y Rhwydwaith trwy annog pobl ifanc i ddarllen eu papurau bro lleol. Byddant yn cynnwys papurau bro yn eu cynllun ‘pasport’ sydd yn cael ei lansio’n fuan mewn ysgolion uwchradd.

Meddai Lis Owen Jones ar ran Y Cymro: “Mae’r fenter yma yn un gyffrous fydd yn helpu sicrhau dyfodol i’n papurau bro. Mae’r Cymro yn falch iawn i gael bod yn rhan o’r rhaglen. Y gobaith gyda’r cynllun pasport yw i gael mwy o bobl ifanc i ymddiddori yn y wasg Gymreig ac yn newyddion cyfoes y dydd. Trwy gydweithio gyda’r Rhwydwaith Papurau Bro gallwn ni geisio hybu eu cylchrediad ac ymwybyddiaeth o’r papurau bro.”

Os ydych chi yn gweithio ar un o Bapurau Bro Cymru, neu yn berson ifanc sydd yn awyddus i gyfrannu adolygiadau, yna cysylltwch gyda Megan Jones ar 01970 828194.



FFARMERS - parhad

Swper Cynhaeaf Plaid Cymru

Cafwyd noson hynod lwyddiannus yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers, nos Sadwrn 8 Hydref, pan gynhaliwyd Swper Cynhaeaf Blynyddol Cangen Pumsaint o Blaid Cymru. Y Cynghorydd Eirwyn Williams, Cadeirydd y Gangen a lywiodd y gweithgareddau a chroesawyd yn arbennig y Gŵr Gwadd Dr. John David, Henffordd. Mwynhawyd y wleded arferol o fwydydd a danteithion a baratowyd gan aelodau’r gangen, a phawb wrth eu bodd gyda’r amrywiaeth helaeth. Cystal ag yn well nag unrhyw westy pum seren oedd barn rhai fu yno. Ar ôl swper cyflwynwyd Dr David i’r gynulleidfa, fel un o feibion mwyaf disglair ardal Ffarmers, gŵr gyda gradd a Doethuriaeth Cemeg a gafodd yrfa ym myd Cemeg Diwydiannol yn America ac yn Port Sunlight. Roedd ei dad, Mr William David yn Brifathro Ysgol Ffarmers a’i fam yn aelod o deulu talentog Troedybryn, a bu’r ddau yn ddiwyd iawn ymhob agwedd o fywyd y fro. Cafwyd anerchiad hynod o ddiddorol gan Dr David yn adrodd am ddyddiau ei febyd yn y fro, bywyd llawn gweithgareddau lleol yn yr ysgol ac yn Neuadd Bro Fana. Soniodd am ei ddyled i’r ardal ac am ei addysg yn yr Ysgol Gynradd, Coleg Llanymddyfri ac yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe. Er cartrefu yn Henffordd roedd ardal Ffarmers yn agos iawn at ei galon ac roedd yn diolch am y cyfle i ddod yn ôl. Yn dilyn yr araith cafwyd nifer o eitemau cerddorol hyfryd dros ben gan y grŵp Merched Manalog dan arweiniad Verina Roberts, Cwmann. Diolchodd Eirwyn Williams i bawb am eu cefnogaeth i’r noson ac yn arbennig i Dr David am ei anerchiad a’i gyfraniad hael i Gronfa’r Gangen. Edrychir ymlaen yn awr at y Ddarlith Flynyddol yng Nghanolfan Gymunedol Crugybar ar nos Wener Ionawr 27, 2006. Bydd David Peterson, San Clêr, yn cyflwyno darlith gyda lluniau a ffilm am hanes Cofeb Llywelyn ap Gruffydd Fychan. Bydd hwn yn ddigwyddiad hynod o bwysig gan fod gan Blwyf Cynwyl Gaedol lle i ymfalchïo fod yr arwr mawr o gyfnod Glyndwr yn un o feibion y fro.

Ymddeoliad

Ar ôl cyfnod hir fel Ficer ar Eglwys Llanyrcrws, mae’r Parchedig Beti Morris wedi ymddeol, ac ar fin symud o’r Ficerdy yng Nghwm-ann yn ôl i’w chynefin yn Nyffryn Aeron gyda’i phriod. Mae wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i’r eglwys a’r gymdogaeth gyfan, ac wedi cefnogi gweithgareddau o fewn y gymuned. Fel arwydd o werthfawrogiad, trefnwyd tysteb iddi, a chafodd ei chyflwyno mewn cyfarfod arbennig yn y Neuadd ar yr 23 Medi.

Dymuna Mrs Morris ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at ei thysteb, ac am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gweinidogaeth yn yr ardal. Dywed fod ganddi atgofion arbennig ac hyfryd iawn o’r ardal, ei phobl a’i phlant. Estynnwn iddi ein dymuniadau gorau wrth ymddeol.

L.J. BAILEY A’T FEIBION

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

Prisiau cystadleuol
Pob math o gig a bacwn o ansawdd da
Gwasanaeth rhagorol bob amser

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]
☎ (01550) 777242 [Cigydd]



W.D. LEWIS a’i Fab

MASNACHWYR AMAETHYDDOL

Cangen Pumsaint, Broneb Stores, Pumsaint
Llanwrda, Sir Gaerfyrddin ☎ (01558) 650215

AMEICH HOLL NWYDDAU AMAETHYDDOL CYSYLLTWCHANI.



Am fusnes cyfeillgar, teuluol, profiadol yn y byd amaethyddol, heb os, i’ch stoc cewch fwydydd maethlon yn W.D. a sylw prydlon.

LLANDEILO



Bois y Castell

Mae wedi bod yn gyfnod prysur i Fois y Castell nid yn unig trwy fod yn llwyddiannus wrth fynd drwodd i ail rownd Cystadleuaeth Corau Meibion Radio Cymru, ond hefyd trwy gynnal nifer o gyngherddau.

Ar nos Sadwrn, 15 Hydref, ymunodd y côr gyda Chôr Rhuthun a’r Cylch mewn cyngerdd yn Rhuthun i godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2006. Cafwyd croeso gwresog, cyngerdd da a chymdeithasu tan oriau mân y bore. Bu Côr Rhuthun ar ymweliad â Llandeilo flwyddyn yn ôl. Hir y parhaed y cysylltiad rhwng y ddau gôr.

Hen Rebel

Drama gerdd am hanes Evan Roberts, Casllwchwr, diwygiwr 1904/05 yw “Hen Rebel”. Cynhyrchiad gan Theatr Genedlaethol Cymru gyda’r sgript o waith Valmai Jones a’r gerddoriaeth gan Einion Dafydd. Y Cyfarwyddwr oedd Cefin Roberts.

Cynhyrchiad proffesiynol gydag actorion proffesiynol, ond a oedd hefyd yn cynnwys corws o bobl leol nad oeddent yn cael eu talu. Ymhlith y dynion oedd ym mherfformiadau’r de roedd chwech o aelodau o gôr Bois y Castell – sef Arwyn Davies, Ken Davies, Paul Davies, Rodney Powell, Chris Williams a Nigel Williams.

Roedd Theatr y Lyric, Caerfyrddin yn llawn dop i weld y perfformiad yno ac er bod rhai yn dymuno gweld fwy o dân y diwygiad yn y cynhyrchiad, cafodd eraill eu plesio’n fawr a hynny oherwydd bod y ddrama gerdd wedi ymwneud mwy gyda theimladau a dilemma mewnol Evan Roberts a Stokes y golygydd papur newydd, na gyda’r allanolion amlwg. Roedd pawb yn gytun fod y llwyfannau a’r perfformiadau yn gofiadwy iawn.

Mae’n sicr i’r chwech fwynhau y profiad yn fawr trwy berfformio yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Aberystwyth ac Aberteifi. Llongyfarchiadau mawr i’r chwech am berfformiadau gwych.

LLANGADOG



Merched y Wawr

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Hydref gan ein llywydd Maisie Nitsch a chanwyd cân y mudiad.

Ein gŵr gwadd ar y noson oedd Wyn Davies, Gelli Aur, sydd yn gweithio i’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mharc Dinefwr. Cawsom noson ddiddorol yn ei gwmni wrth iddo sôn am ei waith a rhoi peth o hanes yr Ymddiriedolaeth yn Sir Gaerfyrddin. Diolchwyd iddo gan Mrs Maisie Nitsch.

Llongyfarchiadau i Haulwen Booth ar gael ei hethol yn Is-lywydd Merched y Wawr Rhanbarth Caerfyrddin - pob hwyl a mwynhad iddi yn ei swydd newydd.

Cofiwch bod ein cyfarfod nesaf ar nos Wener, 18 Tachwedd pan ddaw Heather Ward atom i ddysgu ni i ddawnsio llinell.



NATIONAL CO-OPERATIVE CHEMIST
Fferyllfa Gymunedol Leol

☎ (01558) 823229

Ystod gynhwysfawr eang o nwyddau a chynnyrch i wneud bywyd yn hawdd ac yn hapusch i’r oedrannus a’r anabl



LLANSAWEL

Taith Noddedig

Ar ddydd Sadwrn Gŵyl y Banc Awst cynhaliwyd taith noddedig o wthio gwely o Grugybar i bentref Llansawel. Roedd tri ar ddeg o welyau yn cymryd rhan gan gynrychioli gwahanol sefydliadau megis C.Ff.I, y clwb rygbi, Sefydliad y Merched ac eraill. Yn yr hwyr cynhaliwyd parti yn y parc gyda grŵp o Telford yn canu a phawb yn mwynhau barbeciw. Casglwyd £6,200 yn ystod y dydd at gŵn i'r deillion.



Rhai o Bwyllgor Cydweithio i Elusennau yn cyflwyno'r sic o £6,200 i Siân Rhys Davies o elusen y deillion. Yn y llun o'r chwith mae Wendy, Frances o Fanc Barclay, Howie, Siân a Jeanette



Rhai o aelodau Sefydliad y Merched yn barod am y ras pan gasglwyd £6,200. Yn y llun gwelir Meiriona, Glenys, Kay, Wendy, Gareth a Pat.

Roger Davies

LLOGI PEIRIANNAU

Gwnawn unrhyw waith - Peiriannau turio â thraciau 5-15 tunnell.
bach neu fawr Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheiriannau trymion.

10 mlynedd o brofiad

(01558) 685614
07968 838467

Cwmgolygfa, Rhydymerau,
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP

JAMES JONES

PRESWYLFA, NANTGAREDIG

Prif asiant:

PHILIPS

Teledu, Fideo a
Sustemau Hi-Fi

HOTPOINT

Peiriannau golchi a sychu,
Oergelloedd a Rhewgelloedd

RHENTU A GWERTHU SUSTEMAU LLOEREN

(01267) 290573

LLANYMDDYFRI

Sioe Ffasiynau

Unwaith eto mae tair merch ffodus sef Caryl Jones, Teleri Walters a Sian Elin Augustus o Ysgol Pantycelyn yn cael mynd i Awstralia o dan nawdd y Joshua Foundation. Mae'r merched eisioes wedi bod yn codi arian ac ar nos Wener 30 Medi cawsom wledd o ffasiynau yn Ysgol Pantycelyn. Dillad o siop Elegance Abertawe, Cherry Savage o Henffordd, Delicious o Landeilo a Chaerfyrddin a Dyfed Menswear. Llongyfarchiadau i'r modelau ac i Huw 'Ffasiwn' Rees am ei sylwebaeth ddifyr. Codwyd swm sylweddol iawn tuag at yr achos. Diolch i Fanc Barclays am ei nawdd ac i bawb a fu'n cefnogi.

Clwb Gwawr

Cawsom noson ardderchog ym mwyty'r Wŷdd a'r Gôg yn Llangadog. Roedd y bwyd yn flasus a'r sgwrs yn felys. Mae'r Nadolig yn nesau ac yng ngyfarfod mis nesa'r clwb fe fyddwn yn cael cwmni Val Thomas. Fe fydd Val yn arddangos ei dawn i wneud addurniadau Nadolig. Peidiwch anghofio fod ein cinio Nadolig wedi ei drefnu ar 1 Ragfyr yng Ngwesty Pen y Brenin Llanymddyfri.

Cwrdd Sefydlu Y Parchedig T. Gerwyn Jones, B.D.

Daeth cynulleidfawr ynghyd ar ddydd Sadwrn 15 Hydref yng Nghapel Salem Llanymddyfri i sefydlu'r Parch. Gerwyn Jones yn weinidog ar gapeli Bethel, Cynghordy; Bwlch y Rhiw, Myddfai; Capel y Groes, Cilycwm; Salem, Llanymddyfri a Seion, Myddfai. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Jill Hayley Harries B.Th. a'r organyddes oedd Mary Stephens. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i'r gwasanaeth hyfryd hwn. Dymunwn yn dda i'r Parchg Gerwyn Jones yn yr ofalaeth hon a chroeso cynnes iawn i Mrs. Jones i'n plith.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar yr 8 Medi. Ein Llywydd, Enid Gealy oedd yn y gadair. Cydymdeimlwyd â Beryl Jones, Margaret Davies ac Olwen Parry ar golli brodyr yng nghyfraith. Croesawyd aelod newydd i'n plith sef Trixie Smith. Rwy'n siŵr y bydd yn mwynhau bod yn aelod o'r gangen. Diolchodd Mrs. Gealy i'r rhai a fu'n gweini ar yr henoed ac yn helpu yn sioe Llanellwedd. Ein gwraig wadd oedd Nia Clement o Llangadog a fu'n dangos ei dawn gyda gemwaith. Cawsom gyfle i brynu rhai o'r nwyddau. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd ar nos Fercher, 12 Hydref yn y Neuadd Gatholig.

Cymorth Cristnogol

Ar 7 Medi cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cylch Llanymddyfri o Gymorth Cristnogol yng Nghapel Salem. Diolchodd y Parch John Rogers i Mair Davies, yr ysgrifenyddes a Jean Hughes y drysoryddes am eu gwaith clodwiw dros y blynyddoedd diwethaf.

Eleni codwyd y swm anrhydeddus o £2,872.82 a diolchir i bawb am eu cyfraniadau a'u hymdrechion.

Cyngerdd Mawreddog

Croesawyd Côr Meibion Orffews Treforys dan arweiniad Siân Pearce i gyngerdd Mawreddog yn Neuadd Mabolgampau Coleg Llanymddyfri ar nos Sadwrn 1 Hydref. Roedd y neuadd dan ei sang i fwynhau canu gwefreiddiol gan y côr a'i cyfeilydd Aman Davies ynghyd a'r Tri Tenor sef Robin Lyn Evans, Crwys Evans a John Davies, gyda Gareth Wyn Thomas, Capel Hendre yn cyfeilio. Llywydd y noson oedd yr Aelod Seneddol Adam Price a chafwyd anerchiad diddorol ganddo am bwysigrwydd y coleg ym mywyd Cymru ers ei sefydlu yn 1848.

MERCHED TYNNU RHAFF LLANGADOG YN HERIO EWROP

Gyda chaniad yr adar ar fore Gwener, 16 Medi, cychwynodd tim tynnu rhaff Merched Llangadog ar eu taith i Bencampwriaeth Tynnu Rhaff Ewrop yn yr Eidal. Er iddynt gynrychioli eu gwlad ym Mhencampwriaethau Prydain ddwy waith yn y gorffennol, dyma'r tro cyntaf iddynt brofi'r gystadleuaeth ar y ffrynt Ewropeaidd.

Bu'r daith i Gatwick yn faith ond gofalom inni fwynhau pob eiliad ohoni. Ar gyrraedd yr Eidal, fe ffoniodd ein hyfforddwr, Glyn Thomas i holi ym mhale'r oeddem, canys unwaith eto, rhaid oedd camu ar yr hen gyfaill, y glorian a oedd i adrodd ein tynged!

Gofid mawr fu'r siwrne bws o Faes Awyr Bologna i'r man pwyso oblegid mai dim ond drwy gyfeiriadau dwylo ac ychydig o "Si! Si!" ("Ie! Ie!") roeddem yn cyfathrebu gyda'r gyrrwr bws gan nad oedd yn medru siarad bron dim gair o'r iaith fain! Ta waeth, cyrraedd mewn rhyw hanner awr fu'r hanes, a hynny wedi inni adnabod cwpwl o fechgyn yr Alban yn cerdded ar hyd y palmant. Pleswyd ni a'r glorian ac aeth pob un ohonom i'r gwely'n gynnar. Roeddem wedi sylweddoli mai trannoeth oedd y diwrnod mawr, a'r her fwyaf yn ein hanes.



Dyma ni yn barod i dynnu'r rhaff yn y rownd derfynol

Unwaith eto, rhaid oedd deffro gyda'r adar er mwyn ymadael â'r gwesty am 5.30am. Ond melynach oedd y teimlad i bwysu y tro hwn oblegid gwyddem mai hwn oedd y tro diwethaf inni orfod camu ar y glorian eleni!!!

Gwir i'r profiad fod yn un dra gwahanol i unrhyw gystadleuaeth inni brofi o'r blaen – roedd y profion diogelwch yn hollol amlwg – rhaid oedd inni ddangos ein pasport ar amryw o adegau ac roeddent yn hoff iawn o wirio ein hesgidiau!

Camu i ben y glorian yn hwylus, a gwen ar wefus pob un, hynny yw ar ôl i'r Eidalwyr gael ychydig o drafferth i ynganu enwau rhai ohonom! Ni fu rhwystr, a cherddom i'r neuadd



am ychydig o frecwast. Erbyn 6.30am roedd pawb wedi llanw eu boliau ac yn ysu am y cystadlu. Cerddom at faes y cystadlu i ddadlwytho ein bagiau ym mhabel "Cymru" – NI oedd yn cynrychioli'n gwlad.

Tarodd hi 11 o'r gloch, a dechrau'r cystadlu. Cymysg oedd y teimladau. Y tensiwn yn uchel, a'r dyhead am blesio'n hyfforddwr, ein gwlad, ein hunain a'n gilydd yn gryf. Dan

wres tanboeth yr Eidal, camodd y merched yn herfeiddiol i gystadlu yn erbyn timoedd gorau Yr Iseldiroedd, Sweden, Y Swisdir, Lloegr, Yr Alban a'r Eidal. Wedi cystadlu yn erbyn pawb, gan drechu tim Lloegr, cyrhaeddodd y merched y rownd gyn-derfynol i gipio'r pedwerydd safle. Cyhoeddodd Glyn ei fod yn falch iawn o'i ferched. Mor browd oeddem ni i gyd wedi inni sylweddoli mai ni oedd y tîm merched cyntaf o Gymru i orffen mewn safle mor glodwiw ers dros ugain mlynedd.

Dathlu oedd y bwriad! A hynny a wnaethom! Dychwelodd pawb i'w hystafelloedd i ymbincio a pharatoi i weld yr Eidal, a'r Eidalwyr, yng ngolau'r lleuad! Gyda'r medalau o glych ein gyddfa, dangosom i wledydd eraill Ewrop sut mae canu, dawnsio a mwynhau!

Trannoeth, rhaid oedd i ni ffarwelio â'r wlad a theithio adref i Gymru fach i adrodd yr hanes i'n teuluoedd, ein cefnogwyr a'n noddwyr. Gwefreiddiol.

Er mai gor-siaradus a gor-hoff o'r hen siocled ydym ni yn nhŷb Glyn, y mae ef wedi dyfalbarhau gyda ni ar hyd yr amser. A dyna ddywedwn, y dyfalbarhad a'r ymroddiad sydd wedi ein coroni â'r teitlau anrhydeddus rydym wedi eu hennill eleni. Ni feddylom erioed y byddem yn medru dweud ein bod yn bencampwyr Cenedlaethol y Ffermwyr Ifanc, wedi ennill dwy fedal arian ym Mhencampwriaethau Cymru, yr ail safle yn Sioe Frenhinol Cymru, dwy fedal arian ym Mhencampwriaethau Prydain a phedwerydd yn Ewrop.

Dymuna Indeg, Helen Wyn, Enfys, Meinir, Ruth, Mary, Elin, Gillian, Angharad a Helen Marie ddiolch o galon i'w holl noddwyr am eu cefnogaeth cyn iddynt deithio i'r Eidal a thrwy'r tymor. Diolch i 'Bois Llanfynydd' ac i Allan Jones am eu hanogaeth a hefyd i deulu Brynawelon, Llanfynydd am gael hyfforddi ar y fferm bob wythnos. Mae'r merched yn dra diolchgar i'w teuluoedd am eu cefnogaeth a'u hamynedd di-flino. Ond mae eu diolch pennaf i'w hyfforddwr, Glyn, am ei holl ymroddiad a gwaith caled wrth hyfforddi'r merched. Heb y bobl hyn, ni fyddai'r trip i'r Eidal wedi bod yn bosibl. Penwythnos bythgofiadwy!

SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman
am eich

LLYFRAU * CRYNODDISGIAU * CARDIAU
CREFFTAU * FIDEOS * C.D.ROMau * CASETIAU
Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau
(01269) 595777 hywelwyn@aol.com

EIFION ROBERTS

PLYMWR PROFIADOL

Arbenigwr mewn gwres canolog

(01558) 685007



~ C.FF.I. SIR GÂR ~

EISTEDDFOD CLYBIAU FFERMWYR IFANC SIR GÂR

Ar Nos Wener, 14 Hydref a Sadwrn, 15 Hydref cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. Bu yna gystadlu brwd gyda C.Ff.I. Llanddarog yn fuddugol ac yn ennill y darian, C.Ff.I. Capel Iwan yn ail a C.Ff.I. Penybont yn drydydd agos iawn o 1 pwynt.

Meinir Jones Parry oedd y beirniad cerdd, Ann Evans oedd y beirniad llefaru, Mr a Mrs Gareth Morgans oedd y beirniad gwaith cartref, Lynwen Griffiths oedd y beirniad dawnsio disgo, Valerie James y beirniad dawnsio gwerin a Gareth Evans oedd y beirniad adran ysgafn. Cyfeiliwyd gan Gwyneth Jones a diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am eu gwasanaeth arbennig. Arweinyddion yr Eisteddfod eleni oedd Gerwyn Richards, Irwel Jones, Malcolm Evans a Dafydd Lewis gyda Llinos Jones yng ngofal ysgrifennu'r tystysgrifau. Lis Williams oedd yn cadw'r sgôr, a diolch i bawb am eu gwaith arbennig.

Gwestai yr Eisteddfod ar y Nos Wener oedd Mary Davies, Caeremlyn ac ar y Nos Sadwrn Haydn Jones, Morlogws. Cafwyd araith wych gan y ddau a hefyd cyfraniad hael iawn tuag at gyllid Ffederasiwn y Sir.

Y buddugol yng nghystadlueuath y Gerdd ac yn ennill Cadair y Sir eleni oedd Iwan Rhys o G.Ff.I. Llanddarog. Roedd y gadair eleni yn rhoddedig gan Gerwyn Richards, Llanddarog. Deryc Rees oedd yng ngofal Seremoni'r Cadeirio gydag Afan Thomas, Capel Iwan yn canu Cân y Cadeirio a Hefin Jones, Llanddarog yn canu'r Corn Gwlad. Gethin Page, Tudur Phillips, Cerian Phillips a Nerys Howells C.Ff.I Capel Iwan wnaeth ddawnsio'r Ddawns Gadeiriol.

Heledd Edwards, C.Ff.I. Dyffryn Tywi; Thomas Price, C.Ff.I. Llanymdyfri; Jonathan Williams, C.Ff.I. Llandeilo a Sheena Williams, C.Ff.I. Llanboidy fu yn cyfarch y buddugol. Clwb Ffermwyr Ieuainc Capel Iwan fu yn stiwardio trwy gydol y ddwy noson.

Mae enillwyr y cystadlaethau fel a ganlyn:-

- Unawd dan 26**
Eirlys Davies, Llanelli
- Llefaru dan 16**
Robert Thomas, San Pedr
- Bwletin Newyddion**
Ruth Hughes a Helen Thomas, Llangadog
- Dawns Draddadiadol Gymreig**
Capel Iwan
- Deuawd/Triawd/ Pedwarawd Cerdd Dant**
Eirlys Davies a Donna Jones, Llanelli
- Unawd dan 21**
Ffion Thomas, Llangadog
- Ensemble Lleisiol dan 26**
Capel Iwan

- Sgets**
Llanddarog
- Canu Emyn**
Eirlys Davies, Llanelli
- Unawd Offerynnol**
Gwenllian Davies, San Pedr
- Llefaru dan 26**
Llinos Jones, Capel Iwan
- Unawd dan 16**
Heledd Thomas, Llangadog
- Llefaru dan 21**
Carys Davies, Dyffryn Tywi
- Can Bop**
Llanddarog
- Parti Dawnsio Disgo**
Penybont
- Parti Llefaru**
Abernant
- Adrodd Digri**
Angharad Rees, Llangadog
- Deuawd**
Caryl Davies a Rheinallt Jones, Llanddarog
- Unawd Sioe Gerdd**
William Rees, Llandeilo
- Cyflwyniad Theatrïg**
Dyffryn Tywi
- Parti Deulais**
Cwmann
- Deuawd Ddoniol**
Arwel Sharp ac Alaw Davies, Cynwyl Elfed
- Meimio i Gerddoriaeth**
Penybont
- Côr**
Capel Iwan
- Limerig**
Dafydd Evans, Llanwinio
- Sgets Bensil**
Delyth Jones, Llanarthne
- Stori Fer**
Diane Mosey, Llannon
- Cerdd**
Iwan Rhys, Llanddarog
- Cyfansoddi**
Diane Mosey, Llannon
- Fideo/ DVD yn hysbysebu'r mudiad fel Asiantaeth Garu**
Penybont
- Sgwrs tecsio**
Angharad Evans, Cynwyl Elfed
- Monolog**
Bethan Griffiths, Llanfynydd
- Brawddeg**
Nicola Evans, Abernant
- Pamffled**
Elinor Thomas, Llangadog

GERAINT DAVIES

CONTRACTWR AMAETHYDDOL

Amrywiol beiriannau ar gael yn cynnwys
peiriant twrio ar draciau rwber 5 tunnell
Dumper 6 tunnell a Sanderson –
addas ar gyfer amrywiol dasgiau

(01558) 685252

NANTGAREDIG



Achos Dyngarol

Dymuniadau gorau i John Howell, Deri, Nantgaredig ar gael ei ail-ethol yn gadeirydd cangen Sir Gaerfyrddin o'r sefydliad Amaethyddol Dyngarol Brenhinol (R.A.B.I.). Mae ef a'i briod Margaret Howell wedi rhoi cyfraniad amhrisiadwy i'r elusen dros nifer o flynyddoedd ac wedi cynorthwyo i godi degau o filoedd i'r achos teilwng yma. Gŵr cymwynasgar lleol arall sef Elfryn Daniels, Gorwydd, Felingwm Isaf fydd yr is-gadeirydd. Mewn cinio dathlu Dydd Trafalgar daeth dros cant ynghyd i bryd bwyd blasus yn Nhafarn yr Hanner Ffordd, Nantgaredig lle'r oedd y Parch Roger Hughes, Ficer Llangthen, Gelli Aur a Chwrt Henri yn siaradwr gwadd.

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Tywi

Mae'r tymor newydd yn parhau'n llewyrchus dan gadeiryddiaeth Dafydd Evans, Capel Dewi. Cafwyd tipyn o hwyl a llwyddiant wrth baratoi a chystadlu yn Eisteddfod y sir. Cynhaliwyd noson o hwyl ar gaeau'r sioe ym Mhontargothi. Wedi rhostio'r oen bu band Baldande yn diddanu'r dorf. Rhodri Davies oedd yng ngofal y disgo ac Elonwy Phillips, Hendygywn oedd llywydd y noson.

Cymdeithasau

Agorwyd tymor newydd Cangen Cymdeithas Henoed Llanegwad a'r Cylch gydag ymweliad gan yr Aelod Seneddol, Adam Price a'r siaradwr gwadd yng nghyfarfod Merched y Wawr oedd Wyn Davies, Gelli Aur a fu'n sôn am ei waith gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Neuadd Pontargothi

Bellach mae'r gwaith mawr o adnewyddu wedi cychwyn gyda'r gost yn cael ei chlirio'n bennaf gan arian o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r 1Gronfa – gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn mis Mawrth. Edrychir ymlaen at weld y neuadd boblogaidd a chyfleus hon ar ei newydd wedd.

PUMSAINT



Merched y Wawr

Ym mis Hydref gwelsom gasgliad arbennig o gardiau ar gyfer pob achlysur. Cawsom ein rhyfeddu gan yr holl wahanol fathau o gardiau a'r sgiliau oedd angen i'w gwneud. Wrth edrych ar Meinir Green yn dod ati i wneud y cardiau yn y fan a'r lle gwelsom ei bod yn feistres ar y gwaith. Diolchodd Averinah Jones i Meinir am noson ddiddorol iawn. Diolchodd y Llywydd Ray Davies i Joan Jones a fu am rai blynyddoedd yn paratoi adroddiadau i'r Wasg. Paratowyd paned o de i'r aelodau gan Gwenfudd James. Dewiswyd Eirwen Thomas i'n cynrychioli ar bwyllgor Neuadd Bro Fana a Val Edwards ac Ann Williams ar bwyllgor lleol Apêl yr Urdd. Bydd yr wythnosau nesaf yn rhai prysur i'r gangen gan fod yr aelodau am gymryd rhan yn y Cwis Cenedlaethol a'r ysgol undydd heb anghofio am y cinio blynyddol yng ngwesty Pen y Brenin, Llanymdyfri ym mis Tachwedd.

SIOP Y PENTAN

Y dewis gorau o lyfrau
casetiau a chardiau Cymraeg

Y FARCHNAD NEWYDD
CAERFYRDDIN

(01267) 235044

NEW ROAD GARAGE

(01550) 720836

Gwerthir petrol a diesel yma

Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!
Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos

Pob math o wasanaeth moduron a
gwaith Atgyweirio Ffrâm

Adran yr Urdd Dyffryn Cothi

Dyma rhestr o weithgaredd yr aelwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Cardiau Nadolig gan Ethel Lewis gyda'r elw yn mynd i blant Chernobyl

Arlunio ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint

Noson Mabolgampau gan Glyn Jones, Emyr Richards, Ryan Williams a Rhys Thomas.

Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint.

Noson Tân Gwyllt gan aelodau Clwb Dyffryn Cothi.

Noson Eising Siwgr gan Eurios Jenkins a Helen Morgan.

Eisteddfod Cwrt y Cadno.

Noson gweithgareddau Nadolig gan Mandy Cartmel (*Gweler y llun isod*).

Trefnu blodau gyda Jean Jones.

Noson Karate gyda Ashley White, Flora Davies ac eraill.

Ymarfer tuag at Eisteddfod yr Urdd. Diolch i Sara, Carys, Rhydian a Deian am gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd.

Noson gyda Heulwen Lloyd ac Eileen Lloyd.

Noson chwist gydag Irene Williams.

Noson Bingo gan Siân Johnston ac Elin Davies.

Mynd am dro i goedwigaeth Caio gyda James Tinney o'r Comisiwn Coedwigaeth.

Mynd i'r Sinema yn Aberhonddu.

Noson o ddawnsio Gwerin gyda Jean Hughes a barbeciw gyda hwyl a sbri.

Diolch am y gwahoddiad gan aelodau Urdd Llangadog. Ar ran Carolyn Jenkins a Marina Thomas hoffem ddiolch i bawb sydd wedi helpu adran Urdd Dyffryn Cothi.



TALYLLYCHAU



Capel Esgairnant

Nos Wener, 30 Medi, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Capel. Y pregethwr gwadd oedd y Parch Glyn Tudwal Jones, Capel y Crwys, Caerdydd a chroesawyd ef yn gynnes a didwyll iawn gan Beryl Williams, Blaenwaun, Trysorydd yr Eglwys.

Cafwyd cynulleidfaf gref yn yr oedfa a braf oedd cael cwmni aelodau o Gapel Providence, Cwm-du ac eglwys y plwyf Talyllychau a rhoddwyd iddynt yr un croeso twymgalon.

Diolch i Mary Williams, Neuaddwen am ei gwasanaeth wrth yr organ, i Aled a Gruffydd am gasglu yn ystod yr oedfa, ac i deulu Tircelyn am roi'r blodau.

Y Gymanfa Undebol

Crëwyd naws arbennig yn oedfa'r Gymanfa Undebol ddydd Sul, 2 Hydref dan arweiniad Ann Thomas, Eglwys Sant Mihangel. Roedd hwyl ar y canu gan blant ac oedolion dan ei llaw fedrus a chafwyd awyrgylch gynnes a hwylus yn yr oedfa.


Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Ffion a Nia o Eglwys Talyllychau a phleser oedd clywed merched Talyllychau yn darllen yr emynau ac yn canu'r offerynnau amrywiol yn y gerddorfa dan arweiniad Ethel Lewis.

Llongyfarchiadau calonnog iddynt am eu cyfraniad at lwyddiant y Gymanfa. Offrymwyd y fendith ar ddiwedd yr oedfa gan y ficer, y Parchedig Joanna Penberthy.

D. LLOYD A'T FEIBION

GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

(01558) 650209 A 650451



Masnachwyr coed a nwyddau
adeiladu a ffensio o bob math.
Gwneuthurwyr gatieu pren i
safon "Tir Cymen"



~ COLOFN Y MERCHED ~

Mae’r golofn hon yn gyfle i un o ferched bro Dinefwr ddweud ei dweud bob mis. Bydd rhywun gwahanol yn cyfrannu ym mhob rhifyn o’r **Lloffwr**, yn sôn am rywbeth mae hi am fwrw ei bol yn ei gylch, neu ei rannu â chi. Y mis hwn, tro **Eluned Walters**, Llangadog yw hi.

~~~~~

Sut y’ch chi gyd? Croeso i’m mywyd. Eluned Walters ydw i, falle byddai mwy yn fy adnabod fel gwraig Dai Tancer. Peth ofnadwy fy mod yn cymryd fy hun yn eilradd i’r gŵr ynde! Mae tri disgynnydd gennym, sef Meryl, athrawes yn Ysgol Gynradd Llangadog, Menna, athrawes yn Ysgol Gynradd Cilgerran ac Aled sy’n gofalu bod chwaraewyr y Scarlets yn cadw’n heini, trueni na fyddai’n gallu cadw ei dad a’i fam ar yr un ‘regime,’ ac erbyn hyn mae gennym ddau ŵyr, Dafydd Wyn a Hywel Llew, kannwyll llygaid y ‘Gûs.’ Gog ydw i ond wedi byw ymysg yr Hwntws ers 34 mlynedd, felly dw i’n cymeryd fy mod yn dipyn o fwngrel. Dod i weithio fel bacteriolegydd yn yr Hufenfa yn Llangadog, cwrdd â Dai a dyna ni, hanes yw’r gweddill!



Un uchelgais oedd gennyf erioed, sef mynd i Seland Newydd, dilyn ôl troed teulu fy mam, chwaer i nain a’i theulu wnaeth ymfudo gan mlynedd yn ôl, felly pan soniodd Dai yr hoffai ddilyn tîm rygbi’r Llewod i Seland Newydd nôl yn 2002 doedd dim eisiau dweud mwy, trefnais gyda chwmni sy’n arbenigo mewn teithiau chwaraeon. ‘De ni’n mynd am chwe wythnos.’ Fe ddaeth 1 Mehefin 2005 ac i ffwrdd â ni am Heathrow, erioed wedi cael ‘pasport’ o’r blaen, felly cyrraedd Auckland ar y 3 Mehefin a chael croeso ym maes awyr y ddinas am 5am. Fel yna oedd hi am chwech wythnos, croeso twymgalon gan bawb, pobl mewn siopau yn gyfeillgar, yn barod iawn eu cymwynas a gwên ar wyneb y mwyafrif a *see you later!* wrth ymadael ag unrhyw gwmni. Tybed a oedd canlyniadau’r gemau rygbi â rhywbeth i’w wneud â hyn! Cawsom chwech wythnos bythgofiadwy, dod nôl i Brydain a be sy’n bod? Does dim croeso, dim gwên, dim cyfarchiad, mynd i’r archfarchnad, cyfarch y sawl sydd ar y til ac mae’n edrych yn hurt arnoch. Ydy ein bywydau mor ddiflas â hynny? Ydy ein gyrfaoedd a’n gwaith bob dydd yn ein diflasu? Ble mae’r hwyl yn y gweithle wedi mynd? Ai cyfrifiadur y targedau sydd yn gyfrifol? Mae bywyd yn rhy fyr a gwerthfawr, rhowch wên ar eich wynebau a rhowch gyfarchiad i’ch cydymaith, efallai daw yr hen wlad yma’n groesawgar eto!

Hwyl fawr a diolch am ddarllen.

**ADEILAD CLADDINGS**  
(EIRIAN DAVIES)  
Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda  
**☎(01550) 777497**  
*zinc sheets a steel girders arbenigwyr mewn toeon crwn*

~ CYFARCHION ~

**Penbwyddi Priodas**

- Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Dan James, Hendrecoed, Caio ar ddathlu eu priodas diamwnd yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Ethel a Tudor Lewis, Cefnbrisgen, Llanfynydd ar ddathlu eu priodas aur ym mis Hydref.
- Llongyfarchiadau i Aneurin ac Eurfyl Thomas, Bronhaul, Bethlehem ar ddathlu eu priodas rhuddem ar 16 Hydref.

**Priodas Dda**

- Priodas Dda i Gareth a Sarah Davies, 5 Heol Clarens, Llandeilo yn dilyn yr uniad yn Eglwys Gatholig Llandeilo.
- Llongyfarchiadau ar eu priodas yng Nghapel Ebenezer, Llanymddyfri i Marian Richards, Llwyncelyn, Cil-y-cwm a Gareth Morgan, Gelli Aur, Bronwydd.

**Llongyfarchiadau**

- Llongyfarchiadau i Eirian Davies, Cwmifor ar ei berfformiad yn natganiad Côr Llanpumpsaint o’r Offeren yn DLeiaf (*Nelson Mass*) gan Haydn. Eirian oedd yr unawdydd bas, gyda Cecilia Eleri Smiga (soprano), Eleri Owen (alto) ac Andrew Rees o Gaerfyrddin (Tenor). Wrth yr organ oedd Allan Fewster a Gwyn Nicholas a arweiniodd y Côr a Cherddorfa Siambr Cymru. Cynhaliwyd y gyngerdd yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin.

**Pen-bwydd Arbennig**

- Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Gwennie Davies, Hendre Wen, Heol Salem ar ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed. Boed iddi gael iechyd ac hapusrwydd am flynyddoedd eto.

**Cyfarchion**

- Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Dewi ac Edith Thomas, Delfryn, Brechfa sydd newydd ymgartrefi dros gyfnod y Gaef yng Nghartref Preswyl Brynderwen, Llangynnwr.

**Dyweddiad**

- Llongyfarchiadau i Meryl Evans, 18 Bryn Iago, Llangadog ar ei dyweddiad ag Eilir Davies, Taiaubach, Llanpumpsaint.

**Genedigaeth**

- Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Jonathan Mullins, Sychnant, Ffarmers ar enedigaeth eu plentyn cyntaf – mab bach.

~ GWELLHAD BUAN ~

**Gwellhad Buan**

- Dymuniadau gorau i Rhian George, Aweldeg a John Gwyn Jones, Caio a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.
  - Dymunwn yn dda i John James, Dolwerdd, Talylychau sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis.
  - Da clywed bod Menna Roberts adre’ wedi iddi fod yn yr ysbyty a bod Mrs Janette Bowyer a Mrs Gwyneth Southgate yn gwella, y dair y aelodau o gangen Merched y Wawr, Llangadog.
  - Dymuniadau gorau am adferiad iechyd i un o brif ddosbarthwyr Y Lloffwr, Rowena Davies, Teras Tomos, Llandeilo sydd wedi ymweld â’r ysbyty droeon yn ystod y misoedd diwethaf.
  - Pob dymuniad da am well iechyd i ddwy o drigolion Llandeilo sydd yn Ysbyty Llanymddyfri ar hyn o bryd sef Jennie Davies, Cartref Abbeyfield (Capel Isaac gynt) a Heulwen Davies, Pantglas (Glyntwrch gynt).
  - Dymuniadau am wellhad llwyr i dri o drigolion pentre Nantgaredig sydd wedi derbyn llawdriniaethau yn ystod y misoedd diwethaf sef Dilwyn Davies, Ffynnontrwrch, Eric Jones, Brynamlwg ac Ernie Jones, Danyrallt.
- Diolch**  
Mae’n dda gweld Dilys Thomas, 3 Church Street, Llansawel yn gwella yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glangwili. Dymuna hithau ddiolch am bob caredigrwydd, y llu o gardiau, anrhegion, ymweliadau a’r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref.



~ MENTER BRO DINEFWR ~

**Cynllun Adfywio Cymunedol**


Mae’r Fenter wedi bod yn gweithredu fel Llysgenhadon ardal y Tywi ers dros flwyddyn bellach, sef gweithio ar gynllun adfywio cymunedol yn y fro ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin drwy arian Ewropeaidd. Mae’r bartneriaeth wedi bod yn un adeiladol iawn a llwyddwyd eisoes i ddenu bro i dri chwarter miliwn o bunnoedd i grwpiau cymunedol lleol a phrosiectau amrywiol. Mae dros 50 o brosiectau wedi eu cofrestru bellach a cheir amlinelliad o rai ohonynt isod. Os teimlwch fod gennych gynllun yr hoffech gymorth i’w ddatblygu neu help i ymgeisio am grantiau, cysylltwch â swyddfa’r Fenter ar (01558) 825336 neu e-bostiwch [menter@sirgar.gov.uk](mailto:menter@sirgar.gov.uk).

**Braslun o Brosiectau**

Braf iawn yw cael rhoi sylw i sawl prosiect llwyddiannus o dan arweiniath pobl leol, mewn partneriaeth rhwng Menter Bro Dinefwr a Chyngor Sir Gâr a sawl cefnogwr arall.

*Cynllun Gospels Llandeilo*

Fe lwyddodd Prosiect Gospels Llandeilo sicrhau cyllid o £74,000 o’r 1Gronfa gan sicrhau cefnogaeth am arian cyfatebol o Eglwys Gadeiriol Lichfield a’r Llyfrgell Brydeinig. Dogfen hanesyddol, a diwylliannol, bwysig yw’r Gospels sydd yn olrhain datblygiad crefyddol yr ardal, yn ogystal mae’n enghraifft o Gymraeg ysgrifenedig gynnar. Yn ystod y drydedd ganrif fe gafodd y llyfr ei ddwyn ac mae wedi bod yn Eglwys Gaderiol Lichfield ers hynny.



Bwriad y prosiect yw dod â chopi electronig o’r llyfryn yn ôl i Eglwys St Teilo, a’i leoli yn Nhŵr yr Eglwys (gweler y llun). Bydd yn cael ei ddefnyddio fel ffynhonnell addysgiadol, nid yn unig i ysgolion lleol, ond i golegau a phrifysgolion, a bydd yn denu twristiaid, ac yn hybu balchder diwylliannol.

*Adlewyrchiad arall o hanes unigryw yr ardal hon.*

*Neuadd Salem*  
Llwyddiant arall yw’r cynllun i ailadeiladu Neuadd Bentref Salem, sydd wedi sicrhau dros £90,000. Mae hwn yn brosiect sydd â cyfanswm o dros £150,000 ac mae wedi bod yn bosibl trwy gymorth ariannol gan y neuadd a nifer o fudiadau a busnesau yn rhoi nwyddau ar gyfer y prosiect. Mae pywllgor y neuadd wedi bod yn brwydro ers rhai blynedd oedd i godi arian ar gyfer y prosiect ac o’r diwedd maent wedi bod yn llwyddiannus trwy’r 1Gronfa. Gobeithio bydd y neuadd newydd wedi ei cwblhau erbyn mis Mawrth 2006.

**COED DULAIS**  
*Coed o bob math ar gael*  
**☎(01558) 668409**  
*Hau ar y sychin.  
Plannu ar y gwlypin*

**CHECKPOINT**  
**(01558) 650338**  
*‘Tyres, Exhausts a Batteries’  
Profion M.O.T*

*Prosiectau Eraill*

Mae’r 1Gronfa hefyd yn ariannu gwahanol ddigwyddiadau, ar yr amod eu bod yn dangos elfennau newydd i’r arfer ac mae’r canlynol wedi bod yn llwyddiannus eleni yn sicrhau cymorth ariannol, sef *Gŵyl y Cenhedloedd Bychain*, *Gŵyl Galwr y Dref*, Llanymddyfri a *Gŵyl yn y Parc*. Cynorthwyodd yr 1Gronfa gyda chostau rhedeg y digwyddiadau yma a bu’r tri digwyddiad yn llwyddiannus iawn.

Ymhlith rhai prosiectau llwyddiannus eraill mae Neuadd Goffa Pontargothi, Ystafell Goffa Gerddi Aberglasney a Neuadd Gymunedol Myddfai. Ynghyd â’r rhain hefyd mae sawl prosiect arall ar y gweill megis gwelliannau i Neuadd Ddinesig Llandeilo, sgwâr Llangadog a chanol tref Llanymddyfri.

Os hoffech wybod mwy am y grantiau sydd ar gael i helpu grwpiau cymunedol, cysylltwch ag Aled Davies neu Lisa Jenkins ym Menter Bro Dinefwr ar (01558) 825336.

**Wythnos ‘Cymraeg yn Gyntaf’ Llandeilo**

Fel rhan o ymgynghra ‘Cymraeg yn Gyntaf’ yn Llandeilo (17-21 Hydref) fe drefnodd y Fenter sawl digwyddiad a gweithgaredd i dynnu sylw at y cynllun, gyda’r bwriad o ysgogi pobl i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg wrth ymweld â siopau’r dref ac wrth siarad â’i gilydd.

Cynhaliwyd sesiwn o wersi Cymraeg gan Nia Parri (S4C) yng Ngwesty’r Cawdor cyn yr wythnos yn ogystal â mabolgampau meithrin llwyddiannus yn Neuadd Ysgol Tre-gib.

Fel rhan o ddigwyddiadau’r wythnos ei hun, daeth Martyn Geraint (S4C) i arwain dau jambori, un yn Neuadd Ddinesig Llandeilo a’r llall yn Neuadd Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri, a daeth bron i 400 o blant i fwynhau canu, dawnsio a chwerthin yng nghwmni’r diddanwr enwog.



Cafwyd bore coffi llwyddiannus i ddysgwyr Cymraeg yng Nghegin Fach y Gwili, Llandeilo, gyda’r dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn dod ynghyd i fwynhau paned a sgwrs anffurfiol, a bwriedir cynnal mwy o foreau tebyg yn y dyfodol agos.

Fel rhan o’r ymgynghra hefyd, cynhaliwyd stondin stryd yn Llandeilo i hysbysu’r cyhoedd am y cynllun ac fe ymwelodd swyddogion y Fenter â busnesau’r dref gyda Rhidian Jones, Swyddog Sector Preifat Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i’r digwyddiadau ac edrychwn ymlaen at g y d w e i t h i o ymhellach ar y cynllun yn y dyfodol.



**WILLIAM I. PHILLIPS**  
DERWENEG, LLANSAWEL  
**☎(01558) 685446**  
**Symudol 07836598989**  
**CONTRACTWR CLUDIANT**  
**CYNNYRCH CHWAREL**

**COFIWCH**  
**GEFNOGI EIN**  
**HYSBYSEBWYR**  
**GAN NODI**  
**ENW**  
**Y LLOFFWR**